Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid, Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB/o Bell ar **Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022** am **16:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 52
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 22/10/22 a 16/11/22.

4. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg — 53 - 54

5. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
   (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
   (ii) Aelodau'r Cabinet
   (iii) Prif Weithredwr

6. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

7. Cyhoeddwyd yr adroddiad — 55 - 58

8. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Wathan i Aelod Cabinet Adnoddau**

‘A fyddai modd i’r Aelod Cabinet Adnoddau roi asesiad risg i mi o fenthyciadau Tymor Byr i Awdurdodau Lleol o dan weithdrefnau mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.’

**Cwestiwn gan y Cynghorydd D Hughes i Aelod Cabinet Adnoddau**

Sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, yn creu dulliau cefnogi ariannol i helpu i ddiogelu buddiannau'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?"

**Cwestiwn gan y Cynghorydd T Thomas i Aelod Cabinet - Adfywio**

Pa gynlluniau sydd gan yr Aelod Cabinet i gynyddu nifer y rhai sy’n ymweld â chanol trefi yng nghanol ein trefi o fewn y fwrdeistref sirol?

9. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Sylwer: Bydd hwn yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â Gwasanaethau'r Cabinet a Phwyllgorau ar Ffôn. Rhif 01656 643148

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| S Aspey | W R Goode | E Richards |
| H T Bennett | RM Granville | R J Smith |
| A R Berrow | H Griffiths | JC Spanswick |
| F D Bletsoe | S J Griffiths | I M Spiller |
| S J Bletsoe | D T Harrison | T Thomas |
| JPD Blundell | M L Hughes | JH Tildesley MBE |
| E L P Caparros | D M Hughes | G Walter |
| N Clarke | RM James | A Wathan |
| RJ Collins | P W Jenkins | A Williams |
| HJ David | M R John | AJ Williams |
| C Davies | M Jones | HM Williams |
| C L C Davies | MJ Kearn | I Williams |
| P Davies | W J Kendall | MJ Williams |
| M J Evans | M Lewis | R Williams |
| N Farr | J Llewellyn-Hopkins | E D Winstanley |
| P Ford | RL Penhale-Thomas | T Wood |
| J Gebbie | J E Pratt | S Easterbrook |

RGECOFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR/O BELL DYDD MERCHER, 19 HYDREF 2022, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | C L C Davies |
| P Davies | S Easterbrook | M J Evans | N Farr |
| P Ford | J Gebbie | W R Goode | RM Granville |
| H Griffiths | S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes |
| D M Hughes | RM James | P W Jenkins | M R John |
| MJ Kearn | W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | JH Tildesley MBE | G Walter |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | R Williams | E D Winstanley |
| T Wood | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

E Richards

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Gareth Denning | Arweinydd Tîm Polisi |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Adam Provoost | Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |

40. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiannau gan Aelodau/Swyddogion. Dylid nodi, lle datganwyd buddiannau sy’n rhagfarnu, y rhai a barodd iddyn nhw adael y cyfarfod tra’r oedd yr eitem(au) yn cael eu trafod:-

Cynghorydd R Williams – Eitem 9 – Buddiant personol oherwydd bod cyfeiriad yn yr adroddiad at Groesfan Lefel Pencoed ac fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a Chyngor Tref Pencoed.

Cynghorydd I Williams – Eitem 9 – Buddiant sy’n rhagfarnu ar sail rhag-benderfynu ar elfen o gynigion y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynghorydd JP Blundell – Eitem 9 – Buddiant sy'n rhagfarnu ar sail rhag-benderfynu ar elfen o gynigion y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynghorydd S Bletsoe – Eitem 9 – Diddordeb personol oherwydd ei waith cyflogedig yn y sector rhentu preifat.

Cynghorydd H Bennett – Eitem 6 – Buddiant personol fel cyflogai sefydliad y cyfeirir ato fel Partner Cyflawni yn yr adroddiad. Eitem 9 – Diddordeb personol yn adroddiad y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynghorydd M Evans – Eitem 9 – Buddiant personol gan fod cyfeiriad yn yr adroddiad at Bont Ffordd Penprisk ac fel aelod o Gyngor Tref Pencoed.

Cynghorydd E Winstanley – Eitem 10 – Gan fod ei chyflogwr yn derbyn arian o'r Rhaglen Gyfalaf.

Cynghorydd F Bletsoe - Eitem 9 – Diddordeb personol oherwydd ei waith cyflogedig yn y sector rhentu preifat.

Cynghorydd T Thomas – Eitem 9 – Buddiant personol oherwydd ei gyflogaeth yn y sector tai.

Cynghorydd HJ David – Eitem 12 – Buddiant personol fel aelod o WLGA

Cynghorydd J Gebbie – Eitem 12 – Buddiant personol fel aelod o WLGA, yn ogystal ag aelod o'r gweithlu a lobïodd awdurdodau lleol i gytuno ar gynigion yr adroddiad.

Cynghorydd JC Spanswick – Eitem 12 - Buddiant sy'n rhagfarnu gan fod ei wraig yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynghorydd M Kearn – Eitem 12 – Buddiant sy'n rhagfarnu gan fod ei fab yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Prif Weithredwr – Eitem 14 – Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu.

41. CADARNHAU'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2022 fel cofnod gwir a chywir.

Nododd y Cynghorydd S Bletsoe o dudalen 20 o'r Cofnodion mewn ymateb i'w gwestiwn ynghylch nifer yr achosion o ddigartrefedd ym mis Ebrill eleni eu bod wedi'u cofrestru yn yr ymateb fel 3. Fodd bynnag, mewn gohebiaeth yr oedd wedi ei gyfnewid gyda'r Arweinydd ers y cyfarfod, y nifer gwirioneddol o ddigartrefedd ar hyn o bryd oedd 8. Gofynnodd a ellid ychwanegu hwn gyda chaniatâd yr Arweinydd fel cywiriad i'r cofnodion. Cytunodd yr Arweinydd â'r cais hwn.

42. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

A phwysigion eraill, fel a ganlyn: Gan mai hwn yw cyfarfod cyntaf y Cyngor llawn ers marwolaeth y Frenhines Elizabeth II, hoffwn gymryd eiliad i gydnabod yr achlysur difrifol. Y Frenhines Elizabeth II oedd ein brenhines Brydeinig hiraf a deyrnasodd, ac er bod ei marwolaeth yn golled enfawr i'r Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad, mae'n gadael etifeddiaeth barhaol o gryfder ac ysbrydoliaeth ar ei hôl. Cyn gynted ag y clywsom am ei

marwolaeth, mynegodd yr awdurdod ei gydymdeimlad diffuant â'i Fawrhydi, y Brenin Siarl, a'r Teulu Brenhinol. Chwifiwyd baneri ar hanner mast y tu allan i'n hadeiladau dinesig, ac fel arwydd o barch, roedd y Swyddfeydd Dinesig, Pafiliwn y Grand a Neuadd y Dref yn Maesteg i gyd wedi'u goleuo gyda'r nos mewn porffor, hoff liw'r diweddar sofran. Roedd llyfrau cydymdeimlad ar gael mewn byr dro i alluogi'r gymuned leol i gofnodi eu negeseuon personol. Fe glustnodwyd ardal o dan bolyn y faner yn y Swyddfeydd Dinesig ar gyfer arddangos y teyrngedau blodau yr oedd llawer o bobl am eu cyflwyno. Gwelsom gyfres o ddigwyddiadau ffurfiol fel rhan o'r cyfnod o alaru cenedlaethol, gan gynnwys seremoni'r Cyhoeddiad Brenhinol a gynhaliwyd y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig. Er mwyn sicrhau bod pob un ohonom yn gallu cymryd rhan yn angladd y wladwriaeth, aildrefnwyd nifer enfawr o wasanaethau'r cyngor a oedd yn cynnwys ysgolion, swyddfeydd y cyngor, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau gwastraff, ailgylchu ac eraill. Ar ran yr holl Aelodau, Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a dinasyddion y Fwrdeistref Sirol, fe hoffwn ddiolch i staff a rheolwyr am eu hymdrechion i ddarparu ar gyfer hyn oll, ac am drefnu nifer sylweddol o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod cenedlaethol o alar a sicrhaodd fod pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu talu teyrnged mewn modd priodol ac effeithiol tra'n dal i elwa ar y gwasanaethau hanfodol.

Fe hoffwn ddiolch yn arbennig i dîm y Gwasanaethau Democrataidd am y gefnogaeth a gefais yn bersonol fel Maer. Roedd y gefnogaeth hon o'r radd flaenaf ym mhob ffordd, ac rwy'n ddiolchgar iawn am eu hymdrechion parhaus.

Yn ystod angladd y Frenhines, tawelodd y genedl wrth i ni i gyd gynnal munud o dawelwch. Fe hoffwn hefyd wahodd aelodau i ymuno â mi nawr i gynnal munud arall o dawelwch er cof am y Frenhines Elizabeth.

<u>Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Fe hoffwn dynnu sylw'r aelodau at fenter newydd sydd wedi'i lansio fel rhan o Wasanaeth Gofalwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe'i cynlluniwyd i helpu plant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gofalu fel gofalwyr di-dâl i berthynas, cymydog neu ffrind.  Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth uniongyrchol iddyn nhw yn ogystal â chyngor ymarferol, arweiniad a llawer mwy.

Mae'r ganolfan ar eu cyfer mewn canolfan newydd ar Five Bells Road. Dyma ganolfan sy'n gofalu am iechyd a lles gofalwyr ifanc yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddyn nhw ennill cymwysterau newydd, datblygu sgiliau bywyd pwysig a chymryd rhan mewn gweithdai sy'n seiliedig ar faterion sydd o bwys iddyn nhw yn ogystal â chyfeirio at gefnogaeth bellach.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu clwb ieuenctid gyda gweithgareddau cymdeithasol amrywiol. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth cludiant cartref sy'n sicrhau bod y gwasanaeth a'i gyfleusterau yn parhau i fod ar gael i bob gofalwr ifanc yn wythnosol.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg mewn partneriaeth sy'n bodoli rhwng Whitehead-Ross Education, Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, sydd fel y gwyddoch yn cefnogi'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau.

Mae'r gwasanaeth newydd gwych hwn eisoes wedi profi'n ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth. Rydym yn awyddus y bydd Aelodau'n helpu i ledaenu'r wybodaeth am y gwasanaeth..

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y cyngor ynghyd â chymorth a chyngor pellach i ofalwyr di-dâl o bob oed.

Gan ei bod yn Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol, hoffwn hefyd sôn yn fyr fod yna amrywiaeth eang o weithgareddau yn cael eu cynnal i nodi'r achlysur, gan gynnwys cyfres addysgiadol o bodlediadau sef 'Truth Be Told' sydd ar gael i'w gweld ar-lein.

Mae'r rhain yn dilyn set o deuluoedd sydd wedi mabwysiadu a'r plant y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Mae'r podlediadau hyn yn cynnig gwybodaeth gwirioneddol

ddefnyddiol i unrhyw un a allai fod yn ystyried mabwysiadu. Maen nhw'n ddefnyddiol iawn hefyd os yw aelodau'n ymwybodol o unrhyw unigolion, cyplau neu deuluoedd o fewn eu wardiau a allai fod yn awyddus i dderbyn mwy o wybodaeth.

Gallwch weld y podlediadau a deall mwy am yr Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol trwy ymweld â'u gwefan yn www.adoptcymru.com.

Fe hoffwn hefyd ddiolch i'r gofalwyr maeth y treuliais y diwrnod gyda nhw yn trafod unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw fel unigolion, yn ogystal â materion yn ymwneud â pholisïau newydd a gweithredu'r rhain. Hefyd yn destun trafodaeth, oedd y cynnydd mewn lwfansau, y ddarpariaeth ar gyfer seibiant 2 wythnos sy'n cael ei dalu a'n Siarter Gofalwyr Maeth er enghraifft.

Rwyf wedi derbyn nifer o negeseuon e-bost ers y diwrnod hwnnw, yn diolch i mi am gysylltu ac yn mynegi pa mor werthfawr y maen nhw'n teimlo nawr ein bod yn datblygu ein darpariaeth.

Er ein bod yn cydnabod yr her o ran ein darpariaeth gofal cymdeithasol, bu'r Sesiwn Rhianta Corfforaethol gyda'n rhanddeiliaid ledled y Fwrdeistref Sirol yn hynod fuddiol, gan fod hyn nid yn unig wedi ehangu eu dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, ond a oedd hefyd yn cynnwys gwrando ar leisiau gyda phrofiad o ofal plant a'n bod yn llawn sylweddoli'r cyfleoedd y gall eu sefydliad eu cynnig i'r plant hynny, a hynny er mwyn cyfoethogi eu bywydau ifanc.

Aelod Cabinet – Adnoddau

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yr aelodau i gyd yn dilyn yr anawsterau parhaus sy'n cymryd lle o fewn Llywodraeth y DU ar hyn o bryd.

Yn sgil y gyllideb fach (*mini-budget*), mae papurau newydd fel y *Financial Times* eisoes yn sôn am ddychwelyd mesurau llymder, ac mae'r canghellor newydd sef Jeremy Hunt wedi ein rhybuddio i ddisgwyl penderfyniadau llym ar wariant a threthi.

Yn erbyn y cefndir hwn, ni ddylai fod yn syndod i chi fel aelodau fod yn rhaid i'n hymgynghoriad cyllidebol ni ar gyfer 2023-24 hefyd fod yn rhybudd llym iawn.

Yn seiliedig ar y rhagfynegiadau presennol, mae'n edrych yn debygol y bydd yn rhaid i ni wneud gostyngiadau yn y gyllideb. Mae ein modelu ariannol presennol yn dangos diffyg o £20 miliwn yn y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a bydd yn rhaid inni wneud rhai penderfyniadau anodd ein hunain er mwyn cyflawni ein cyfrifoldeb cyfreithiol o ddarparu cyllideb ar gyfer y cyngor sy'n gwbl gytbwys. .

Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at y gostyngiadau yn y gyllideb yr ydym eisoes wedi'u gwneud dros y deng mlynedd diwethaf, gostyngiadau sy'n dod i gyfanswm enfawr o chwe deg dau miliwn o bunnoedd.

Nid yw gwneud gostyngiadau pellach yn mynd i fod yn hawdd o gwbl. Rydym eisoes yn wynebu galw cynyddol ar lawer o'r 800 o wasanaethau gwahanol a ddarparwn, gan gynnwys niferoedd digynsail o atgyfeiriadau i'n timau gwasanaethau cymdeithasol a'r nifer uchaf erioed o bobl ddigartref sy'n ceisio llety dros dro.

Pan fyddwch chi'n ystyried yr adferiad parhaus o'r pandemig, yr argyfwng costau byw presennol, chwyddiant cynyddol a chostau ynni cynyddol, mae cyllid y cyngor dan straen aruthrol.

Dyna pam y bydd mor bwysig i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyllideb sydd ar ddod i gadw golwg realistig.

Mae angen inni fod yn glir iawn na fydd gan y cyngor unrhyw ddewis ond gwneud penderfyniadau eithriadol o anodd dros y blynyddoedd nesaf.

Er y bydd y penderfyniadau hyn bob amser yn ceisio amddiffyn yr aelodau mwyaf agored i niwed yn y gymuned, mae'n anochel y bydd yn rhaid i ni edrych ar leihau gwasanaethau a symleiddio ein gweithrediadau.

Dyma hefyd pam mae adborth ar osod cyllideb gan ein cymunedau lleol mor bwysig.

Rydym am sicrhau ein bod yn gallu gwneud penderfyniadau realistig, ymarferol ar gyfer ein bwrdeistref sirol, ac rydym am gyflawni hyn drwy gydweithio'n agos.

Mae'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, a gall aelodau ddisgwyl cael mwy o wybodaeth amdano yn fuan iawn.

Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol

Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau wedi nodi, ychydig wythnosau'n ôl, bod y cyngor a'n partneriaid wedi llwyddo i ddod o hyd i lety amgen ar gyfer tri deg naw o drigolion digartref ymhen pedwar diwrnod, a oedd wedi cael llety o'r blaen mewn dau westy glan môr yn Porthcawl fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i bandemig COVID-19.

Roedd hyn yn ganlyniad cadarnhaol o sefyllfa lai na delfrydol a osodwyd ger ein bron heb fawr o rybudd, a hoffwn anfon fy niolch i dîm tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a phawb a'n helpodd i sicrhau bod modd dod o hyd i'r llety mor gyflym.

Nawr, gyda'r tywydd yn dechrau troi'n oerach, fe hoffwn ofyn i'r aelodau atgoffa preswylwyr y gallan nhw adrodd yn ôl ar gyfer unrhyw un y maen nhw'n meddwl allai fod yn cysgu ar y stryd i'r tîm tai a'n helpu ni i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gefnogaeth a chymorth.

Y ffordd hawsaf a symlaf o wneud hyn yw ymweld â gwefan Streetlink lle gallwch ddarparu manylion gan gynnwys lleoliad y sawl sy'n cysgu ar y stryd yn ogystal â disgrifiad. Gellir dod o hyd i'r wefan yn: www.streetlink.org.uk

Yna bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â thîm y cyngor lleol ac asiantaethau digartrefedd fel y gellir cynnig cymorth priodol iddyn nhw.

Diolch byth, mae nifer y rhai sy'n cysgu allan sydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar unrhyw un adeg yn gymharol fach.

Mae'r unigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol yn adnabyddus i'r gwasanaethau sy'n parhau i geisio eu helpu, ac i gydbwyso eu hanghenion, sy'n aml yn gymhleth, ag anghenion y gymuned ehangach.

Rydym yn gweithio'n agos ochr yn ochr â nifer o bartneriaid i sicrhau bod unrhyw un sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref yn gallu cael cymorth cynhwysfawr.

Mae gwefan y cyngor ei hun yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud i atal pobl rhag gorfod cysgu allan, ac os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, byddwn yn argymell yn gryf eich bod yn cyfarwyddo â'r manylion.

Aelod Cabinet – Addysg

Efallai y bydd yr aelodau am roi gwybod i'w hetholwyr bod ceisiadau ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchradd ym mis Medi 2023 bellach ar agor.

Mae rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr disgyblion cynradd sydd ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd yn cael eu hysbysu mai'r ffordd gyflymaf a hawsaf o gyflwyno cais yw trwy lenwi ffurflen ar-lein sydd ar gael yn yr adran 'Fy Nghyfrif' ar wefan y cyngor.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen derbyniadau ysgol sy'n cynnig gwybodaeth am wneud cais am le mewn ysgol uwchradd leol, gan gynnwys mapiau o'r dalgylch a llawer mwy.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais fydd 4pm ar 20 Ionawr 2023, a bydd hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi ar 1 Mawrth 2023.

Sylwch, gan nad oes derbyniad awtomatig neu warantedig i unrhyw ysgol uwchradd yn y fwrdeistref sirol, mae perygl y bydd ceisiadau nad ydyn nhw'n cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 20 Ionawr, ddim yn gallu dewis ar gyfer eu dewis ysgol.

Mae hyn yn cynnwys pob ysgol ac eithrio Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath, lle mae proses ychydig yn wahanol ar waith.

Dylai unrhyw un sy’n dymuno gwneud cais i’r ysgol hon gysylltu â nhw’n uniongyrchol i ofyn am ffurflen gais.

Aelod Cabinet – Adfywio

Roeddwn wrth fy modd yn mynychu agoriad diweddar ar gyfer yr Hwb Cymorth newydd sydd wedi sefydlu i geiswyr gwaith yn ardal Porthcawl.

Mae'r gwasanaeth, sy'n cael ei redeg gan Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi'i leoli ym Meddygfa Old Portway, yn cynnig cyngor, cymorth a mentora arbenigol i bobl leol ar draws pob agwedd ar hyfforddiant a datblygu sgiliau newydd, chwilio am swyddi newydd, a sicrhau cyflogaeth newydd.

Mae'r Hwb ar agor ar ddydd Llun, dydd Mawrth, a dydd Iau rhwng 9:30am a 2:30pm. Mae’r Hwb hefyd yn bwriadu cynnal boreau coffi misol ar gyfer ffoaduriaid Wcrain a'u teuluoedd sy’n eu lletya.

Mae hyn i gyd yn dilyn agoriad yn ystod yn haf diwethaf Hwb Cymorth arall i geiswyr gwaith, mae’r ganolfan hon wedi’i leoli yn Nhŷ Llynfi ym Maesteg. Mae’r Ganolfan ar agor ar ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 9:30am a 3:30pm.

Mae gan y ddwy ganolbwynt ystafelloedd hyfforddi, clwb swyddi, mynediad i adnoddau TGCh a llawer mwy. Gobeithio y bydd yr aelodau'n helpu i ledaenu'r neges am y canolfannau hyn.

Ers 2016, mae menter Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cefnogi mwy na phum mil o unigolion, gan gynnwys 740 o bobl ifanc.

Maen nhw hefyd wedi darparu hyfforddiant i 1,800 o unigolion ac wedi helpu i sicrhau 360 o swyddi gwirfoddol, ac wedi cefnogi 1,740 i mewn i swyddi newydd.

Mae’r canolfannau newydd hyn yn cynnig cyfle i bobl elwa ar gyngor a chymorth arbenigol, a hoffwn ddiolch i dîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr am eu gwaith da.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Rwy’n siŵr y bydd yr aelodau wedi clywed am y digwyddau diweddar lle achosodd glaw trwm i garthffosiaeth gael ei ollwng oddi ar arfordir Porthcawl.

Arweiniodd hyn at osod gorchymyn ‘dim nofio’ rhagofalus o 48 awr. Yn ddealladwy felly fe arweiniodd hynny at bryder eang ymysg trigolion lleol.

Ar ôl i'r gwastraff gael ei ollwng, fe wnaethom ysgrifennu at Dŵr Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch pam y digwyddodd, ac i ofyn a oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd i osgoi hyn.

Mae eu hymateb wedi egluro bod y broblem wedi digwydd oherwydd bod llawer o'r system ddraenio bresennol yn dyddio o'r cyfnod Edwardaidd neu Fictoraidd, felly mae rhai draeniau sydd wedi'u cynllunio i gludo dŵr wyneb hefyd yn bwydo i mewn i'r system caethion budr.

Mae hyn yn golygu, yn ystod cyfnodau pan fu glawiad arbennig o drwm, y gall y gorlifiadau storm ollwng er mwyn atal cartrefi a busnesau rhag cael eu gorlifo.

Efallai bod hyn yn dderbyniol pan gyflwynwyd y system, ond mae’n amlwg nad yw’n addas bellach.

Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru hefyd yn gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r holl orlifo o ganlyniad i’r stormydd a’r niwed amgylcheddol.

Gyda mwy na £840 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn rheoli dŵr gwastraff rhwng nawr a 2025, mae'r cwmni wedi datgan ei ymrwymiad i liniaru effaith gorlifoedd ar draethau a chyrsiau dŵr.

Gan weithio gyda rheoleiddwyr amgylcheddol i flaenoriaethu buddsoddiad mewn meysydd sydd wedi gweld yr effaith fwyaf andwyol, mae'r cwmni wedi gwneud ymrwymiad pellach ar orlifo o ganlyniad i stormydd i Lywodraeth Cymru ac mae cynlluniau ar waith i fuddsoddi £130 miliwn ychwanegol drwy 'hyblygrwydd ariannol'.

Mae ei Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn nodi sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu gweithio ochr yn ochr â chynghorau lleol i ymdrin â materion fel llifogydd, newid yn yr hinsawdd, tynnu dŵr arwyneb o'r rhwydwaith carthffosydd, gwella'r amgylchedd a mwy.

Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau'n croesawu'r ymrwymiad hwn. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiad pellach.

A gaf i hefyd roi gwybod i'r aelodau na fydd gwasanaeth Shopmobility ar gael dros dro o ganlyniad i waith adfer brys ym maes parcio *Brackla One* yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae defnyddwyr y gwasanaeth eisoes wedi cael gwybod am y mesur dros dro hwn, sy'n angenrheidiol i sicrhau eu diogelwch parhaus. Gwneir pob ymdrech i'w alluogi i ailddechrau unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Prif Weithredwr
Mae gennyf ddiweddariad cryno iawn a fydd, yn fy marn i, o ddiddordeb i'r aelodau.

Byddwch yn ymwybodol, fel rhan o raglen yr awdurdod lleol ar gyfer Darparu Gwasanaethau yn y Dyfodol, fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i gefnogi ein dyheadau i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau.

Mae rhan bwysig o hyn wedi cynnwys sicrhau bod ein hystafelloedd cyfarfod wedi'u darparu'n briodol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithio hybrid, gan gynnwys yn siambr y cyngor a'r prif ystafelloedd pwyllgora.

Mae'n dda gennyf gadarnhau bod hyn bellach yn ei le, a bod yr uwchraddio wedi'i gwblhau.

Cyn bo hir bydd aelodau'n derbyn amserlen newydd ar gyfer cyfarfodydd lle byddwch yn gallu mynychu naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.

Bydd yr amserlen gychwynnol yn cwmpasu gweddill y mis cyfredol a mis Tachwedd cyfan, a gallwch ddisgwyl derbyn amserlenni pellach wedi hynny.

43. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Efallai y bydd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed bod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal rhwng nifer o sefydliadau cymorth lleol i nodi ffyrdd y gallwn gydweithio i helpu ein cymunedau yn ystod yr argyfwng costau byw.

Cyfarfu cynrychiolwyr – sydd hyd yma wedi cynnwys y cyngor, BAVO, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Tai y Cymoedd i'r Arfordir a Heddlu De Cymru – yn ddiweddar i drafod cydlynu a rhannu gwybodaeth am y cymorth amrywiol sydd ganddyn nhw i'w gynnig ar gyfer trigolion.

Mae buddsoddiad hefyd yn cael ei wneud i ddatblygu gwefan o'r enw "Cryfach Gyda'n Gilydd Pen-y-bont" a fydd unwaith y bydd y wefan wedi'i chwblhau yn darparu adnodd ar-lein a fydd yn cyfeirio pobl at gymorth sy'n amrywio o weithgareddau am ddim yn eu cymunedau i fan cynnes i gyfarfod.

Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei drefnu a'i gydlynu'n effeithlon, rydym wedi hwyluso secondiad dros dro i aelod o'r tîm Cyflogadwyedd i oruchwylio a chydlynu gweithgareddau'r grŵp.

Drwy weithio'n agos ochr yn ochr â chydlynwyr cymunedol y cyngor a BAVO a staff cefnogol cymunedau, byddwn yn cysylltu â thrigolion lleol i ddatblygu rhaglen gymorth gyd gysylltiedig.

Ar yr un pryd, fe fyddan nhw'n osgoi dyblygu ymdrechion, er enghraifft, mewn ardaloedd lle y gallai banc bwyd neu leoliad cynnes fod yn weithredol eisoes. Fe fyddan nhw hefyd yn sicrhau bod trigolion lleol yn manteisio'n llawn ar yr holl gymorth presennol sydd ar gael. Cymorth sy'n amrywio o gludiant cymunedol i grantiau ar gyfer gwisg ysgol.

Gyda chynllun gweithredu yn cael ei baratoi, bydd mentrau newydd yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r prosiect hwn yn fuan iawn.

Yn dilyn y clod o gael eu cydnabod â Gwobr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am y rôl arweiniol y maen nhw wedi'i chwarae mewn achos amlwg yn ymwneud â lles

anifeiliaid, mae'r Gwasanaeth Rheoleiddiol sy'n cael ei Rannu wedi'i gydnabod ymhellach gyda gwobr cenedlaethol *Paw Prints* yr RSPCA 2022.

Y tro hwn, cyflwynwyd statws lefel aur i'r bartneriaeth am eu gwaith yn y categorïau ymdrin â chŵn strae ynghyd â materion trwyddedu sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Cawsant lwyddiant hefyd yn y categori cŵn cenel lle cyflwynwyd gwobr efydd iddyn nhw

Efallai y bydd Aelodau'n cofio bod y gwasanaeth hefyd wedi sgorio'n uchel yng ngwobrau 2021, ond dyma'r tro cyntaf iddyn nhw ennill gwobr aur yn y categori trwyddedu anifeiliaid, yr unig wasanaeth o'i fath yng Nghymru i wneud hynny.

Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am ymuno â mi i longyfarch y tîm, ac i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Efallai y bydd yr Aelodau hefyd am atgoffa eu hetholwyr bod y cynnig parcio am ddim y mae'r cyngor wedi'i gynnal drwy gydol y pandemig bellach wedi'i ymestyn hyd at 1 Ebrill 2023.

Mae'r trefniant hwn wedi'i anelu at gefnogi busnesau a siopwyr lleol wrth i ni ymgodymu â'r pandemig a'r argyfwng costau byw ac mae'n golygu y bydd y tair awr gyntaf am ddim ym maes parcio aml-lawr y Rhiw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a rhwng hanner dydd a 3pm yn John Street, Porthcawl.

Mae parcio am ddim hefyd ar gael ym maes parcio aml-lawr Llynfi Road ym Maesteg a maes parcio Ffordd Penprysg ym Mhencoed, a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu eto cyn dechrau'r haf y flwyddyn nesaf.

44. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22

Fe gyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a'i bwrpas oedd cyflwyno i'r Cyngor Adroddiad Blynyddol drafft y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021/22. Gofynnodd i'r Aelodau i gadarnhau'r adroddiad, y dadansoddiad o'r adroddiad, y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn gwasanaethau cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr. Nodwyd hefyd y camau nesaf.

Fel cyd destun, fe eglurodd fod Llywodraeth Cymru, yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (SSWBA) 2014, wedi paratoi fframwaith perfformiad gyda'r nod o sicrhau bod awdurdodau'n adrodd ar berfformiad ac yn cael ei werthuso yn ei erbyn canlyniadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ddau amcan polisi allweddol:

• gwella'r canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth;
• a diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol.

Mae hefyd yn ceisio:

• trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach a rheolaeth iddyn nhw;
• hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ym maes gofal cymdeithasol;
• a, gwella rôl ataliol gofal cymdeithasol ac iechyd, gan nodi dyletswyddau llesiant trosfwaol i leihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod SSWBA yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth a

hefyd gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n bwysig bod barn a llais pobl a'u gofalwyr yn cael eu clywed.

Nod yr Adroddiad Blynyddol ychwanegodd (Atodiad 1 i'r adroddiad) oedd rhoi trosolwg o ofal cymdeithasol i'r Cyngor a phobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ei nod yw tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod 2021/22 a bod yn glir ynghylch cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella, a nodi blaenoriaethau ar gyfer 2022/23.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod paratoi'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad, yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd. Roedd y gweithlu ar draws y gwasanaethau wedi cyfrannu at baratoi'r adroddiad hwn ac mae tystiolaeth yn yr adroddiad o adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr ynghyd ag adborth gan bartneriaid trydydd sector.

Mae'r canllawiau ar gyfer yr adroddiad yn nodi'r adrannau mewn perthynas â'r chwe safon ansawdd genedlaethol ar gyfer llesiant:

• Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni;
• Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl;
• Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed;
• Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas;
• Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthynas ddomestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel;
• Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni mwy o les economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif gyflawniadau yn 2021/22 gan ystyried yr heriau a wynebwyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn tystio i ddatblygiadau gwasanaeth allweddol a gwelliannau a wnaed yn ystod 2021/22, tra'n cydnabod y meysydd hynny lle mae angen gwelliannau a newid. Nododd yr adroddiad hefyd y risgiau a'r heriau sylweddol a wynebwyd wrth i'r Cyngor symud ymlaen. Mae'r wybodaeth hon wedi llywio blaenoriaethau allweddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2022/23.

Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at rywfaint o wybodaeth allweddol am ddadansoddiad Rheoleiddiol o berfformiad, gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o'r diwedd fod y blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 wedi'u manylu yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dangoswyd y 10 blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn 2022/23 yn fanylach ym mharagraff 4.10 yr adroddiad.

Nodwyd y camau nesaf penodol ychwanegol ar ddiwedd pob un o'r 6 safon yr adroddir arnyn nhw.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn fanylach am agweddau o Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 a disgwyliadau, nodau ac amcanion y dyfodol trwy gyflwyniad *PowerPoint* ategol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn dymuno cofnodi ei diolch i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a’i thîm am yr hyn a fu’n 12 mis hynod o anodd ar draws y Gyfadran, o ganlyniad i alw sylweddol gan breswylwyr ac effaith uniongyrchol y rhain ar staff a'r preswylwyr eu hunain.

Roedd heriau parhaus y byddid yn mynd i'r afael â nhw wrth i'r Gyfarwyddiaeth symud yn ei blaen. Mae’r heriau hyn yn sylweddol a’n bod ni hefyd yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r argyfwng costau byw, canlyniad y rhyfel yn Wcráin, yn ogystal âg effeithiau Covid ar iechyd ein dinasyddion.

Y prynhawn yma, byddai eitemau eraill ar yr agenda yn parhau i roi blas ar yr heriau a wynebodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, nid yn unig o ran y prosesau pennu cyllideb, ond hefyd o ran recriwtio a chadw staff allweddol.

Ychwanegodd, ers iddi gael ei phenodi i'w rôl yn y Cabinet, ei bod wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r heriau hyn a oedd yn ein hwynebu. Bu'n gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ers dros 30 mlynedd ac nid oedd erioed wedi profi'r diffyg cyllid a oedd i ddod ar ôl blynyddoedd o brofi cyni.

Nid oedd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol erioed o'r blaen wedi profi'r gofynion presennol gan breswylwyr, ac nid oedd hi erioed o'r blaen wedi profi'r anawsterau wrth recriwtio staff gofal cymdeithasol cymwys a phrofiadol.

Fel Aelod Cabinet ar gyfer y portffolio hwn, daeth i ben drwy ddweud y byddai’n parhau i gynghori a diweddaru’r Aelodau ar y pwysau parhaus yma, yn ogystal â bod ar gael i drafod gydag unrhyw Gynghorydd y tu allan i’r cyfarfod, os bydden nhw’n dymuno trafod y materion hyn ymhellach, mewn mwy o fanylder.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 71 o'r adroddiad a nododd, mai dim ond 20 o ofalwyr oedd wedi cymryd rhan yn y gwelliannau Llesiant a gofynnodd pam fod y nifer mor isel. Gofynnodd hefyd sut y gallem gysylltu ymhellach â gofalwyr ifanc, er mwyn derbyn eu barn ar yr uchod ac edrych ar ffyrdd o ganfod mwy o ofalwyr ifanc yn gyffredinol.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp – Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol fod cysylltu ag 20 o ofalwyr ifanc newydd yn gam cyntaf o raglen tymor hir. Roedd y cynllun i’w weld yn gweithio gydag ysgolion uwchradd a’u bod bellach yn symud i ysgolion cynradd hefyd yn ogystal â’r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc. Gan fod y gwaith datblygu yn symud ymlaen, roedd y cysylltiad â gofalwyr ifanc wedi cynyddu o 20 i 190.

Roedd yr Aelod hefyd yn bryderus ynghylch y nifer cynyddol o atgyfeiriadau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r pwysau ar staff sydd eisoes dan bwysau i gefnogi'r rhain, gan gynnwys ym maes Iechyd Galwedigaethol. Nododd yn arbennig fod pwysau o ran pobl yn ceisio dod i gysylltiad cychwynnol â staff, er enghraifft dros y ffôn. Gofynnodd felly a fyddai'r bwriad am recriwtio pellach yn cynnwys hyn yn ogystal â defnyddio'r System Atgyfeirio.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod maes gwaith Therapi Galwedigaethol wedi dangos rhai gwelliannau, fel amseroedd aros am asesiadau a chafodd hyn ei gydnabod gan Archwiliad Mewnol a gynhaliwyd a chafwyd canlyniad rhagorol. Fodd bynnag, roedd heriau mewn perthynas â’r System Deleffon yn ein pwynt(iau) mynediad cyffredin ‘drws ffrynt’. Ychwanegodd y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yn parhau i weithio’n galed i sicrhau bod lefelau cyswllt cychwynnol yn gwella.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod ein darpariaeth gofalwyr ifanc yn esblygu i gyd-fynd â chynnydd mewn angen a bod yr Awdurdod a'i bartneriaid allweddol yn ymdrechu i ganfod mwy o ofalwyr ifanc yn y Fwrdeistref Sirol.

Gofynnodd yr Aelod gwestiwn dilynol pellach, sef a yw'r Cyngor yn ceisio lleihau nifer staff asiantaethau ac yn edrych i recriwtio mwy o weithwyr cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â 'denu ein pobl ein hunain' o fewn y gweithlu.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy ddweud bod meysydd o'r gwasanaeth yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar staff Asiantaeth, yn enwedig o ran ein gwasanaeth 'drws ffrynt' sydd 60% yn uwch nag y dylai fod ar hyn o bryd. Roedd yn her ceisio lleihau'r ddibyniaeth hon ar staff o'r fath dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig gan nad oedd pobl â chymwysterau proffesiynol yn y maes gwaith hwn yn brin ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 46 o'r adroddiad a chroesawodd y Strategaeth mewn perthynas ag Iechyd Meddwl Oedolion a'r traws-gydweithio o ran gweithio gyda Phartneriaid Iechyd i gefnogi hyn. Roedd yn gobeithio y byddai'r gwaith yma er mwyn cyflawni'r Strategaeth orau, wedi'i gynnwys gyda phartneriaid gofal sylfaenol, gan fod rhagnodi cymdeithasol yn darparu cymorth i unigolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â chefnogaeth a darpariaeth y Strategaeth yn y dyfodol, yn cynnwys gweithio gyda Meddygon Teulu a rhanddeiliaid allweddol fel BAVO, ac ati.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar yr eitem hon i ben, drwy ddweud bod pwysau a heriau'n cael eu profi ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol nid yn unig ar lefel Cymru Gyfan, ond ar draws y DU hefyd. Er mwyn ceisio lleddfu'r pwysau hwn, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi sefydlu Pwyllgor Gweithredu Gofal er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hwn, er mwyn cefnogi gofal i bobl hŷn yn ein cymunedau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021/22.

45. TARGEDAU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL AR GYFER 2022-23: ADOLYGIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r newidiadau arfaethedig i dargedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-23 fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.

Esboniodd fod pob cyfarwyddiaeth, fel rhan o'r broses o gynllunio adferiad, wedi cael cyfle i ailystyried y targedau ar gyfer 2022-23, yn seiliedig ar ddata diwedd blwyddyn sydd wedi'i ddilysu.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad A o'r adroddiad, a oedd yn nodi'r newidiadau arfaethedig i dargedau'r Cynllun Corfforaethol. Newidiadau a gadarnhawyd gan y Cabinet ddoe ac os cânt eu cymeradwyo gan y Cyngor heddiw, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi fel atodiad i'r Cynllun Corfforaethol cyfredol. Amlygwyd y targedau newydd neu'r targedau diwygiedig er hwylustod.

Fel rhan o adolygiad ehangach o berfformiad a llywodraethu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fe gymeradwyodd y Cyngor y dull hwn o osod targedau mewn cylchoedd cynllunio yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun corfforaethol cyhoeddedig yn parhau'n gyfredol gyda'r data diwedd blwyddyn diweddaraf ac yn osgoi cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol heb dargedau oherwydd y diffyg data sydd ar gael.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Cyngor mai hon oedd blwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor, a byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu am y 5 mlynedd nesaf bryd hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hunanasesu drafft wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Hydref 2022 i'w ystyried.

Yng nghyfarfod y Cabinet ddoe, fe gadarnhawyd o'r diwedd fod rhai mân newidiadau wedi'u gwneud i rywfaint o wybodaeth a gynhwyswyd o fewn y data ategol. Roedd y rhain ar frig tudalen 127 o'r adroddiad sef y ddau ddangosydd perfformiad cyntaf yn ymwneud â'r rhai sy'n Gadael Gofal a hyfforddiant Addysg a Chyflogaeth. Roedd yr addasiadau yma'n dangos y byddai'r ganran a ddangoswyd yn nhermau 12 mis ers gadael gofal bellach yn 65% gyda hyn wedyn yn dangos 55% yn dilyn 24 mis ers gadael gofal.

Dywedodd yr Arweinydd, fel yr oedd y Prif Weithredwr wedi cyfeirio ato, fod rhai targedau wedi'u newid yn y Cabinet ddoe, er mwyn gwneud y rhain yn fwy heriol wrth arwain ymlaen.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Cymunedau ymhellach, y gellid ystyried hefyd gosod targed dangosydd perfformiad ar gyfer ailgylchu gwastraff yn uwch yn y dyfodol, er gwaethaf y ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyrraedd targedau uchel eisoes o ran perfformiad yn y maes hwn.

Cyfeiriodd Aelod at Atodiad A o'r adroddiad – Twf a Ffyniant – a chroesawodd y dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2022-23 o ran ffigurau nifer yr ymwelwyr i ganol tref Maesteg fel rhan o nifer o dargedau meincnodi newydd ehangach. Gan bod 6 mis o'r flwyddyn wedi mynd heibio, gofynnodd pryd y bydd tystiolaeth ar gael i weld sut yr ydym yn mesur yn erbyn y targedau a osodwyd felly, fel rhan o'r dangosyddion perfformiad hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ei bod yn falch o weld bod dros 900,000 o bobl wedi'u cofrestru fel rhai oedd yn ymweld â thref Maesteg fel rhan o'r ffigurau nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd. O ran data meincnodi cyffredinol, roedd ffigurau'n cael eu disgwyl a byddent yn cael eu hadlewyrchu yn chwarter y flwyddyn nesaf. Roedd hyn oherwydd cywirdeb mewn ystadegau data, yn llusgo o un chwarter i'r nesaf. Gyda'r Cynllun Corfforaethol newydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf, ychwanegodd y byddai hyn yn cynnwys dangosyddion ac amcanion newydd, diwygiedig i gynnwys data dangosyddion canol tref a gwybodaeth gysylltiedig.

Fel atodiad i hyn, teimlai un Aelod, os oedd data'n fwy diweddar ar wybodaeth benodol am ddangosyddion perfformiad fel y manylir yn yr adroddiad, y gallai rhai o'r dangosyddion perfformiad sy'n dangos fel coch ar y statws RAG (R*ed, Amber, Green*), adlewyrchu rhai o'r rhain fel rhai coch. wedi'i gwblhau (gwyrdd) neu wedi'i gwblhau'n rhannol (ambr), a fyddai wedyn yn rhoi canlyniadau mwy cywir a chadarnhaol mewn perthynas â pheth o'r data ar gyfer dangosyddion perfformiad sy'n cael ei ddangos.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, fel rhan o ddata Chwarter 2 i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd, y byddai hyn yn adlewyrchu sefyllfa fwy diweddar o ran gwybodaeth y dangosydd perfformiad. Hefyd, ychwanegodd, o ran y dyfodol, y gallai fod yn opsiwn da i ddarparu'r data i aelodau drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na rhannu gwybodaeth yn llai aml. Byddai hyn hefyd yn rhoi statws mwy cywir o ran perfformiad ar adeg benodol.

Pwysleisiodd un Aelod na ddylai ffigurau nifer yr ymwelwyr o ran gosod targedau ar gyfer 2022-23, fod yn seiliedig ar ddata 2021-22, oherwydd canlyniad pandemig Covid a'r cyfyngiadau symud o ganlyniad. Gofynnodd sut roedd y data ar gyfer 2021-22 yn cymharu â ffigurau data mwy hanesyddol a osodwyd cyn-bandemig.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod nifer yr ymwelwyr i ganol ein trefi yn uchel o ran niferoedd cyn Covid ac yn amlwg fe leihaodd hyn yn ystod y pandemig yn 2020, ond gwelwyd cynnydd yn 2021-22. Tua 3 miliwn a 4.5 miliwn oedd y ffigyrau wrth gymharu'r ddau gyfnod.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 126 o'r adroddiad a gofynnodd am fanylion ynghylch data ar eiddo gwag sy'n cael ei ddefnyddio unwaith eto i gefnogi pobl ddigartref.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'n cael y wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod ac yn diweddaru'r Aelodau ar hyn, cyn gynted â phosibl.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo targedau diwygiedig y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-2023

46. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn cyflwyno diweddariad ar Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y bwriad yw ceisio cymeradwyaeth i'r adroddiad fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 o'r adroddiad eglurhaol, a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ddoe.

Fel cynnig rhywfaint o gefndir, cadarnhaodd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a gafodd gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2021, yn nodi'r drefn newydd o ran gwella llywodraeth leol. Mae'r ddeddf yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y Cyngor i ddangos gwelliant yn hytrach nag ar ysgwyddau Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill. Un o'r gofynion yn y Ddeddf yw bod y Cyngor yn llunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith bob blwyddyn ariannol, gan ddechrau o flwyddyn ariannol 2021-22. Ychwanegodd fod hyn hefyd yn ofyniad cyfreithiol a bod yr Hunanasesiad hwn ar gyfer llynedd yn hytrach na'r un presennol.

Eglurodd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cytuno ar y broses a amlinellwyd ar gyfer datblygu'r hunanasesiad ym mis Mehefin. Roedd y broses yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad a llywodraethu presennol o fewn y Cyngor gymaint â phosibl, gan gynnwys y defnydd o asesu perfformiad corfforaethol (CPA).

Dilynwyd y broses wedyn fel y cytunwyd a chyflwynwyd canfyddiadau drafft i aelodau'r CPA ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Roedd y canfyddiadau a'r dyfarniadau bellach wedi'u coladu mewn un adroddiad syml a hygyrch. Ychwanegodd y Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a WLGA bod yr adroddiad hunanasesu a'r asesiad llesiant blynyddol bellach wedi'u cyfuno'n un ddogfen.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi diweddariad ar yr adroddiadau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi a'u meddylfryd esblygol am yr adroddiadau hunanasesu mewn cyfarfod â'r Cyngor ar 12 Awst 2022. Gofynnodd WG a oedd adroddiadau yn cynnig eglurder ar y materion lefel uwch a phwysig sy'n ymwneud â pherfformiad yn yr Awdurdod. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr fe fydden nhw'n disgwyl cyfeirio at y gwaith arolygu sydd ar y gweill mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol.

Ychwanegodd mai ychydig iawn o werth sydd mewn cynnal ymgynghoriad neu gysylltu ffurfiol ar yr adroddiad hunanasesu. Y ffafriaeth fyddai crynodeb o waith cysylltu ac ymgynghori allweddol dros y flwyddyn gyfan sy'n ymwneud â'r amcanion llesiant. Mae'r adborth hwn wedi'i integreiddio i'r adroddiad drafft.

Cyflwynwyd yr adroddiad hunanasesu drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Hydref 2022 i'w ystyried, yn ogystal â'r Cabinet ar 18 Hydref 2022 yn ôl yr hyn a ailadroddwyd gan y Prif Weithredwr

Byddai'r Hunanasesiad Corfforaethol yn y dyfodol hefyd yn elwa o ran rhywfaint o ymgynghori a chysylltu â'n cymunedau, rhanddeiliaid allweddol a'r broses Trosolwg a Chraffu. Byddai hyn oll yn ei dro yn cynorthwyo'r Cyngor i wella eu dulliau o weithio yn y dyfodol.

Daeth y Prif Weithredwr â'i gyflwyniad i ben, drwy roi gwybod am rai o'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Hunanasesiad Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2022.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cadeiryddion Trosolwg a Chraffu am eu rhan weithredol yn y ddogfen hon fel rhan o'r Fframwaith Asesu Corfforaethol, a fyddai'n sicr yn cryfhau'r broses Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn y dyfodol. Ychwanegodd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn asesu'r Hunanasesiad Corfforaethol yn y dyfodol.

Roedd un Aelod wedi gweld o ddarllen canllawiau drafft Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WGLA) y dylai'r Cyngor wrth ddod i rai casgliadau o'i Hunanasesiad Corfforaethol roi ystyriaeth i rhai safbwyntiau ei thrigolion, busnesau lleol a staff. Gofynnodd a oedd unrhyw ymgynghori o'r fath wedi digwydd ar y fersiwn gyfredol ac a oedd teimlad y dylai'r Hunanasesiad o bosibl fod yn fwy seiliedig ar dystiolaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai dyma oedd camau cynharaf yr Hunanasesiad Corfforaethol ac felly roedd y broses addasu yn dal i ddatblygu i ryw raddau. Ychwanegodd fod yna gysylltu wedi bod mewn perthynas â'r ddogfen o ran ymgynghori, er enghraifft trwy Arolwg Staff Blynyddol yr Awdurdod a'i ymarfer ymgynghori ar y gyllideb a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn roedd rhai ymgynghoriadau sy'n canolbwyntio ar wasanaethau, ymgynghoriadau a oedd yn llywio'r hyn yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud mewn perthynas â gwasanaethau allweddol y Cyngor, gyda'r bwriad ar i'r Awdurdod ystyried rhai o'r rhain er mwyn cyflawni gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.

Teimlai un Aelod hefyd fod angen i'r Hunan-Asesiad Corfforaethol ymchwilio'n ddyfnach i ganfod lefelau'r gwasanaethau. Efallai hefyd y dylai'r  Hunanasesiad gynnwys llai o naratif gan gynnwys yn hytrach dangosyddion mwy credadwy a chadarn.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Cyngor yn cymeradwyo adroddiad hunanasesu corfforaethol 2021-22, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn amodol ar y newidiadau i wybodaeth benodol am ddangosyddion perfformiad fel y cyfeiriwyd ato uchod gan y Prif Weithredwr. |

47. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD – DOGFEN GYFLWYNO

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, er mwyn i'r Cyngor ystyried Dogfen Gryno Adroddiad Ymgynghori'r Cynllun Adnau (Atodiad 1 o'r adroddiad) a'r fersiwn cyflwyno arfaethedig o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP) fel y'i diwygiwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiadau 2 a 3) a chytuno i'r RLDP

Newydd gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ogystal â'r Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w harchwilio'n annibynnol.

Dywedodd fod Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cwmpasu'r cyfnod 2018 i 2033 a dyma un o'r strategaethau pwysicaf y bydd y Cyngor hwn yn ei baratoi i fynd i'r afael â heriau allweddol poblogaeth sy'n tyfu ac i sicrhau gwydnwch hirdymor y Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Strategaeth wedi'i datblygu dros gyfnod o 4 blynedd a hynny ers 2018. Bu dau ymgynghoriad cyhoeddus helaeth yn 2019 ac ym mis Gorffennaf 2021 a Sesiwn Graffu ar y strategaeth sy'n cael ei ffafrio cyn y pandemig.

Roedd hefyd wedi'i baratoi gyda sylfaen o dystiolaeth fanwl a grynhoir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys nifer o werthusiadau pwysig gan gynnwys Cynaladwyedd ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Roedd hefyd yn seiliedig ar dros 40 o ddogfennau ategol sy'n rhoi manylion am feysydd fel Asesiadau Trafnidiaeth, Astudiaethau Economaidd, Asesiadau Manwerthu, Archwiliad Gwyrdd ac Astudiaethau Demograffig. Roedd y rhain yn ôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, i gyd yn hanfodol i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn esblygu'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr Aelodau bod proses i'w dilyn o hyd. Er bod y Cynllun Datblygu Lleol wedi bod trwy nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus, pe bai'n cael ei gymeradwyo heddiw, byddai'n symud ymlaen i Lywodraeth Cymru lle bydd Arolygydd Cynllunio annibynnol yn cael ei benodi i gynnal Archwiliad Cyhoeddus. Felly, byddai'r Cynllun Datblygu Leol yn craffu ar ei bolisïau, ei gynlluniau a'i dystiolaeth ategol ar raddfa genedlaethol a bydd modd i'r cyhoedd, datblygwyr ac Aelodau fynychu'r Archwiliad a chyflwyno sylwadau os ydyn nhw'n dymuno.

Ychwanegodd ymhellach y byddai'r Arolygydd Cynllunio, os yw'n fodlon â'r Cynllun ar ôl yr Archwiliad Cyhoeddus, wedyn yn ei gyfeirio at y Gweinidog i'w gymeradwyo. Yn dilyn hyn, byddai'n cael ei gyfeirio'n ôl at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w fabwysiadu. Gallai hyn gymryd lle yn ystod yr haf flwyddyn nesaf pe bai'n cael ei gymeradwyo heddiw.

O ran pam fod y Cynllun Datblygu Lleol mor bwysig eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, y rheswm pam fod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfoes yn rhan hanfodol o system gynllunio a arweinir drwy fabwysiadu cynlluniau penodol yng Nghymru ac yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i'w weithredu.

Mae'r Cynllun yn gosod fframwaith i sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy mewn modd cyd gysylltiedig, gan alluogi'r gallu i ddatrys problemau yn ehangach nag a fyddai'n bosibl drwy ddelio â materion lleol ar wahân.

Felly, heb Gynllun Datblygu Lleol cyfredol, byddai'n dod yn gynyddol anodd i'r Cyngor ganolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â phryderon defnydd aml-bwrpas o'r tir, gan arwain at broses gynllunio leol a fyddai'n mynd yn ddarniog sydd heb ei chydlynu ac yn adweithiol.

O fewn y Cynllun Datblygu Lleol mae darpariaeth ar gyfer dros £116m o gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i gyflawni'r cynllun a phe na bai gennym Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig newydd fyddem ni ddim yn gallu ysgogi'r cyfraniadau hyn.

Roedd hefyd yn bwysig nodi bod poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn tyfu'n gyflym, a hynny o'i gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos eraill yng Nghymru.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod Cynllun Datblygu Lleol presennol Pen-y-bont ar Ogwr (hyd at 2021 bellach wedi dyddio). Oherwydd hyn roedd y pwysau a oedd ynghlwm wrth hyn a'r sylfaen o dystiolaeth wedi lleihau'n raddol bellach gan fod cyfnod y cynllun gwreiddiol wedi dod i ben. Paratowyd peth o'r dystiolaeth hon dros ddegawd yn ôl ac ni ellir dibynnu ar y dystiolaeth honno i gyfiawnhau penderfyniadau cynllunio i'r un graddau ag y bu.

Felly, bydd diffyg gweithredu yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gynyddol anodd, yn agored i her gan y diwydiant datblygu, a bydd goblygiadau parhaus ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio rhesymegol, cyd gysylltiedig a chyson ar draws y Fwrdeistref Sirol yn fwy fwy anodd. Mae hyn wedi bod yn wir yng Nghyngor Sir Caerffili lle na chafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu gan y Cyngor ac maen nhw bellach yn wynebu'r sefyllfa lle mae gwaith datblygu heb fod yn gydlynus ac ni ellir ysgogi cyfraniadau S106 hyd at y lefelau a argymhellir gan nad oes Cynllun Datblygu Lleol yn ei le i ddarparu sylfaen o dystiolaeth.

Roedd y Datganiad Ysgrifenedig yn yr adroddiad yn Atodiad 2, yn amlinellu'r polisïau cynllunio lleol, dyraniadau defnydd tir a chyfiawnhad cysylltiedig yn seiliedig ar y dystiolaeth ategol.

Mae'r map o gynigion hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, yn dangos y dyraniadau tir, y dynodiadau cynllunio ar gyfer ffiniau aneddiadau a gynigir yn y cynllun wedi'u nodi. Mae hyn yn wybodaeth allweddol i gyflawni'r strategaeth ofodol.

Pennod 1 – Cyflwyniad
Pennod 2 Cyd-destun Gofodol a Strategol – proffil a chyd-destun ardal
Pennod 3 – Materion a Sbardunau Allweddol sef y pethau hynny sydd wedi sydd wedi bod mewn llunio gweledigaeth ac amcanion y cynllun yn uniongyrchol.
Pennod 4 - Yn nodi'r Fframwaith Strategol – Dyma'r weledigaeth y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio tuag ati.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau grynhoi'r elfennau allweddol o Bennod 4 er gwybodaeth i'r Aelodau. Roedd y crynodeb yn cynnwys:-

- Strategaeth Twf a Gofodol (Creu Lleoedd)
- Manylion am y Strategaeth Tir Cyflogaeth:
- Enghreifftiau o Welliannau Seilwaith Strategol ehangach a Buddsoddiad Cymunedol, byddai'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i ddiweddaru yn darparu:
- Darpariaeth addysg:
- Materion Isadeiledd Priffyrdd:
- Opsiynau ar gyfer tai fforddiadwy:
- Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored Cyhoeddus:
- Cynigion ar gyfer Gofal Iechyd:
- Dyraniadau Preswyl a'u seilwaith ategol newydd:

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau grynodeb o bob un o'r elfennau hyn o'r Cynllun, er budd yr Aelodau.

Yna, ailadroddodd hefyd fod dogfen yr RLDP yn ddogfen strategol hollbwysig i'r Cyngor. Mae wedi cael ei pharatoi dros 4 blynedd gyda sylfaen o dystiolaeth sylweddol o ran paratoi'r ddogfen.

Roedd hefyd wedi bod drwy nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus a, phe bai'r ddogfen yn cael ei chymeradwyo heddiw, byddai'n destun Archwiliad Cyhoeddus gan Arolygydd annibynnol o Lywodraeth Cymru.

Fe ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau bod cyfle i gyflwyno sylwadau yn yr Archwiliad Cyhoeddus gan y trigolion, datblygwyr neu aelodau lleol os ydyn nhw’n dymuno gwneud hynny. Byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd cyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun.

Byddai'r Cyngor wedyn yn gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, ar ddiwedd y broses hon.

Canmolodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r gwaith a ymrwymwyd i hyn gan Swyddogion o'r Adran Gynllunio. Byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn sicrhau tua £116 miliwn o gyfraniadau Adran 106, yn ogystal â chynnydd net sylweddol hefyd mewn mannau agored gwyrdd hygyrch. Heb weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol fe bwysleisiodd y byddai'r Cyngor yn profi datblygiad fyddai heb ei reoli, yn ogystal â chynllunio trwy apêl.

Teimlai rhai Aelodau ei bod yn anffodus bod y weinyddiaeth newydd, a oedd yn newydd i’r gwaith, yn gorfod gwneud penderfyniad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Teimlai rhai o Gynghorwyr newydd yn y Fwrdeistref Sirol y dylai hyn fod wedi bod yn gyfrifoldeb yr Awdurdod blaenorol.

Yna gwnaeth yr Aelodau yn eu tro y sylwadau canlynol a gofyn y cwestiynau canlynol mewn perthynas â’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd:

• Mae 5 Safle Ymgeisiol yn ardal Trelales. Croesewir y gwaith uwchraddio i gylchfan Broadlands. Mae cysylltedd o ardaloedd Island Farm a thir i’r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr gyda mwy o ddatblygu yn cael ei gynnig yno, yn golygu bod angen sefydlu llwybr Teithio Llesol (*Active Travel Route*) cyn i waith adeiladu gael ei ddatblygu er diogelwch plant wrth feicio o Drelales i Broadlands;

• A oes modd egluro pam fod cynigion ar gyfer Datblygiad y Glannau, Porthcawl, yn ystyried uchafswm o 1,100 o unedau preswyl ac y bydd unrhyw gynigion ar gyfer Datblygiad y Llyn Halen yn y dyfodol yn gydnaws â graddfa’r adeilad ac uchder yr adeilad;

• Mewn perthynas â'r 850 o dai a gynigir ar gyfer y maes syrcas, Trelales a'r sefyllfa o ran tagfeydd traffig yn Bryn Hill a Stryd y Parc ynghyd â'r sefyllfa bresennol o ran ansawdd aer yn yr olaf, a fydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ceisio lliniaru’r tagfeydd traffig yn ogystal â’r gostyngiad yn safon yr aer o ganlyniad i lygredd y mae'r datblygiad ychwanegol yn debygol o'u creu;

• A allech gadarnhau y bydd y moratoriwm ar gyfer y groesfan reilffordd ym Mhencoed yn cael ei gadw yn y CDLl Newydd ac y bydd y safle preswyl newydd arfaethedig i’r dwyrain o Pencoed yn dod â llwybr Teithio Llesol er mwyn sicrhau bod cysylltedd i/o’r datblygiad, yn ogystal â sicrwydd ar gysylltiadau/ymyriadau trafnidiaeth addas eraill;

• Mae tai cymdeithasol a fforddiadwy ar lefel isel hanfodol yn lleol ac yn genedlaethol. A oes unrhyw ganran neu ganllawiau ar faint o'r math hwn o ddatblygiad y bwriedir ei gynnwys mewn gwahanol leoliadau o fewn y Fwrdeistref Sirol yn y CDLl;

• O ran Gofal Iechyd Sylfaenol, a allai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gysylltu ag Awdurdod Iechyd Cwm Taf Morgannwg i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnal a'i gwella o bosibl, yn enwedig mewn perthynas â'r Ganolfan Iechyd Cymunedol Integredig a gynigir ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ac yng Ngogledd Corneli a Porthcawl (South Road);

• Mae’n braf nodi bod safleoedd Adfywio tymor hir wedi’u cynllunio o fewn Maesteg yn Ffordd Coegnant a safle Golchfa Maesteg. Gobeithir y bydd ymdrechion pellach i gael cyllid allanol yn golygu y bydd gwaith yn dechrau yn y safleoedd hyn yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach;

• Mae angen mawr am dai yn y dyfodol yng Nghwm Llynfi ac ni ddylai hyn gael ei gynnig ond hefyd ei wireddu. Mae diffyg darpariaethau Addysg a Hamdden yn ardal Cwm Llynfi hefyd;

• O ran tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, os bydd y cynllun hwn yn symud ymlaen, bydd hyn yn cyfrif am Ysgol Gynradd yn y tymor byr, ynghyd â darpariaeth Addysg Uwchradd yn fwy tymor hwy;

• Ystyrir ardal Porth y Cymoedd yn y CDLl fel ardal lle na fydd fawr ddim Twf Preswyl, os o gwbl. O ran Atodiad 43 i’r adroddiad – Asesiadau Trafnidiaeth Strategol, sut mae’r asesiad hwn a’r CDLl Newydd ei hun yn mynd i’r afael â’r mater cronig o ran traffig mewn perthynas â’r M4/Cyffordd 36 a’r A4061 dilynol, sy’n cysylltu a rhywfaint o gymunedau Porth y Cymoedd. A fyddai unrhyw welliannau i’r A4061 sydd o fewn awdurdod yr awdurdod lleol hefyd yn arwain at fesurau canlyniadol ar gyfer gwelliannau i gyffordd yr M4;

• Mae nifer o ddatblygiadau yng Nghoety Uchaf wedi arwain at fod yn fwy na'r hyn a gafodd ei gynnig ar y dechrau, e.e. Parc Derwen yn ogystal â rhai safleoedd yn y lleoliad yn cael eu datblygu yn groes i’r ddarpariaeth sydd o fewn y CDLl presennol, e.e. Ffordd Cadfan. Mae angen dysgu gwersi yma ar gyfer y CDLl Newydd a datblygwyr yn cael eu dwyn i gyfrif ar eu cynigion gwreiddiol a ddylai gydymffurfio â'r CDLl newydd. Mae angen darparu mwynderau dinesig hefyd allan o arian Adran 106 yn unol â maint adeiladu tai newydd. Fe ddylid eu darparu lle bynnag y bo modd, yn ystod camau cynnar y gwaith adeiladu;

• Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith y gallai problemau traffig gormodol a llygredd aer yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr ei chael ar Wardiau cyfagos. Dylai arian Adran 106 hefyd gael ei ddyrannu a'i wario yn y Wardiau perthnasol yn hytrach nag mewn mannau eraill;

• A fyddai modd rhoi ystyriaeth yn yr RLDP i ddarparu Llwybr Diogel i'r Ysgol trwy gysylltu ochr orllewinol Broadlands, ar hyd Gypsy Lane i Trelales.

Ymatebwyd i'r pwyntiau a'r cynrychioliadau uchod gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Swyddogion Cymunedau a Chynllunio. Mae rhagor o fanylion am yr ymatebion hyn ar gael drwy'r ddolen ganlynol - Cyngor

Yna cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd drwy gydsyniad, y dylid cynnal pleidlais electronig ar argymhelliad yr adroddiad.

Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:-

O blaid - 39 Yn erbyn - 4 Ymatal - 2

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

**(1)** Wedi ystyried y Ddogfen Gryno o Adroddiad Ymgynghori’r Cynllun Adnau (Atodiad 1 o’r adroddiad) a’r fersiwn cyflwyno arfaethedig o’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fel y’i diwygiwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus (Atodiadau 2 a 3) bod cytundeb ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd diwygiedig ac ymhellach fos

y Cyngor yn cytuno bod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'w harchwilio'n annibynnol.

) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, papurau cefndir ategol a thystiolaeth dechnegol ofynnol, cyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

48. DIWEDDARU'R RHAGLEN GYFALAF CHWARTER 2 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd:

• cydymffurfio â gofyniad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities' (argraffiad 2017);

• rhoi diweddariad ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022-23 ar 30 Medi 2022 (Atodiad A o'r adroddiad);

• ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 hyd at 2031-32 (Atodiad B);

• nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2022-23 (Atodiad C)

Eglurodd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyllid cyfalaf a rheolaethau cyfrifyddu, gan gynnwys rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn sydd i'w drin fel gwariant cyfalaf. Maen nhw'n addasu arferion cyfrifyddu mewn amrywiol ffyrdd er mwyn atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw awdurdodau.

Atgoffodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y Cyngor ei fod, ar 23 Chwefror 2022, wedi cymeradwyo cyllideb cyfalaf o £69.979 miliwn ar gyfer 2022-23 fel rhan o raglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2022-23 hyd at 2031-32. Cafodd y rhaglen ei diweddaru ddiwethaf a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2022.

Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y canlynol:

• Monitro Rhaglen Gyfalaf chwarter 2 2022-23;
• Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 hyd at 2031-32;
• Monitro'r Strategaeth Gyfalaf;
• Dangosyddion darbodus a dangosyddion eraill.

O ran diweddariad ar gyfer Chwarter 2 Rhaglen Gyfalaf 2022-23, cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 4.1 o'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y Rhaglen ar gyfer y cyfnod hwn ers iddi gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor, ac a oedd yn ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Cyfanswm y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 ar hyn o bryd yw £89.539 miliwn, a thelir £54.043 miliwn ohono o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £35.496 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid hefyd at y Tablau ar dudalen 191 o'r adroddiad, sef Tabl 1 a oedd yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth ar

gyfer 2022-23, gyda Thabl 3 yn crynhoi’r tybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. 2022-23.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad wedyn yn rhoi manylion y cynlluniau unigol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, gan ddangos y gwariant a ragwelir ar 30 Medi 2022 yn erbyn y gyllideb oedd ar gael.

Dywedodd fod nifer o gynlluniau eisoes wedi'u nodi fel rhai fydd angen cynnwys llithriad yn y gyllideb i'r dyfodol (2023-24 a thu hwnt). Yn chwarter 2, cyfanswm y llithriad y gofynnwyd amdano yw £7.207 miliwn, a oedd yn cynnwys y cynlluniau a ddangosir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

O ran Rhaglen Gyfalaf 2022-23 ymlaen, cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, ers mis Gorffennaf 2022, fod nifer o gynlluniau newydd a ariennir yn allanol a gymeradwywyd a chynlluniau a ariennir yn fewnol wedi’u hymgorffori yn y Rhaglen Gyfalaf, fel y dangoswyd yn paragraffau 4.5 a 4.6 (yr adroddiad).

Roedd paragraff 4.7 wedyn yn cyfeirio at y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig yn Atodiad B i'r adroddiad, tra bod Atodiad C yn manylu ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2021-22, y dangosyddion amcangyfrifedig ar gyfer 2022-23 a nodir yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2022- 23 yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig. Mae'r rhain yn dangos bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

Roedd rhan olaf cyflwyniad y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â Monitro Strategaeth Gyfalaf, ac ymhelaethodd arnyn nhw er budd y Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod at y cynnig i greu estyniad i Ysgol Gynradd Coety a gofynnodd a oedd cost am y gwaith yn fwy na'r amcangyfrif o £1.6 miliwn, yna a fyddai'r arian ychwanegol hwn yn cael ei ganfod er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn amodol ar y broses ymgynghori ar ehangu’r ysgol y byddai’r gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o’r prosesau statudol arferol ar gyfer cynlluniau o’r math hwn a chaniatâd cynllunio ar gyfer yr estyniad arfaethedig i’r ysgol y byddai’r cynllun yn mynd yn ei flaen.

Cyfeiriodd Aelod at ddyraniad o £500k o Gyllid Cyfalaf i'w ymrwymo ar gyfer ffyrdd heb eu mabwysiadu a gofynnodd am ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi’i gyflawni.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd ganddi'r manylion manwl hyn wrth law, ond byddai'n falch o rannu hyn gyda'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Nododd Aelod fod yr adroddiad wedi nodi llithriad o £7 miliwn ar gyfer cynlluniau cyfalaf o'r flwyddyn ariannol hon i'r nesaf. Gofynnodd a oedd y swm hwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gostau chwyddiant a chynnydd mewn costau materol ar gyfer y gwaith a gynigir felly, ac ati.

Dywedodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod yr adroddiad yn cynnwys y rhesymau pam y bu’n rhaid i rai cynlluniau lithro o’r flwyddyn hon i’r flwyddyn nesaf, gyda rhai ohonyn nhw’n agos iawn at gychwyn, felly roedd hi’n hyderus y byddai’r cynlluniau hyn yn cael eu costio fel y maen nhw wedi cael ei amcangyfrifo. Gellid addasu cynlluniau oedd ymhellach ymlaen ar sail cost, gydag unrhyw newidiadau i'r gwaith yn cael eu newid yn ôl yr angen, felly roedd hi'n hyderus na fyddai'r cynlluniau hyn yn dod ag unrhyw bwysau o ran costau uwch sylweddol i'r Awdurdod.

Nododd Aelod hefyd o'r pecyn adroddiadau bod costau amcangyfrifedig gwahanol mewn gwahanol rannau ohono ar gyfer gwaith Cosy Corner ym Mhorthcawl. Gofynnodd am eglurhad pa un o'r rhain oedd y ffigwr cywir, ac ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mai'r dyraniad oedd ar gael i adeiladu'r cynllun oedd £2.675 miliwn.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cyngor:

• Yn nodi'r diweddariad ar gyfer Chwarter 2 Rhaglen Gyfalaf 2022-23 y Cyngor hyd at 30 Medi 2022 (Atodiad A i'r adroddiad y cyfeirir ato).

• Yn cymeradwyo'r rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (yn Atodiad B).

• Yn nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2022-23 (Atodiad C).

49. <u>ADRODDIAD ALLDRO BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021-22</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd:

• Cydymffurfio â gofyniad 'Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (y Cod) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i gyflwyno trosolwg o weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

• Cyflwyno adroddiad o wariant gwirioneddol o Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021-22.

Roedd yr adroddiad yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndirol a oedd yn cynnwys nodyn atgoffa i'r Aelodau mai *Arlingclose* oedd ymgynghorwyr rheolaeth i'r trysorlys ar gyfer y Cyngor.

Roedd y gwasanaethau presennol a ddarperir i'r Cyngor yn y trefniant hwn yn cynnwys:

• cyngor ac arweiniad ar bolisïau, strategaethau ac adroddiadau perthnasol;
• cyngor ar benderfyniadau buddsoddi;
• hysbysiad am statws credyd a newidiadau;
• gwybodaeth arall am ansawdd credyd;
• cyngor ar benderfyniadau rheoli dyled;
• cyngor cyfrifo;
• adroddiadau ar berfformiad y trysorlys;
• rhagolygon o gyfraddau llog; a
• chyrsiau hyfforddi

O ran y sefyllfa bresennol, cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod yr adferiad economaidd parhaus yn dilyn pandemig coronafeirws, ynghyd â'r rhyfel yn yr Wcrain, chwyddiant cynyddol, a chyfraddau llog uwch yn faterion pwysig yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22. Roedd cyfradd Sylfaen y Banc ar ddechrau'r cyfnod adrodd yn 0.1%. Gwelodd misoedd Ebrill a Mai 2021 yr economi yn cynyddu momentwm wrth i'r cyfyngiadau yn ystod y pandemig gael eu lleddfu. Er gwaethaf gwell rhagolygon, disgwyliadau'r farchnad oedd y byddai Banc Lloegr yn gohirio codiadau mewn cyfraddau llog tan 2022. Fodd bynnag, fe welwyd cynnydd mewn chwyddiant sy'n parhau i gynyddu. Roedd CPI y Deyrnas Unedig yn 0.7% ym mis Mawrth 2021 ond mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n raddol ers hynny. Cafodd chwyddiant ei sbarduno i ddechrau gan gynnydd mewn prisiau ynni a chwyddiant mewn sectorau fel manwerthu a lletygarwch a oedd yn ailagor ar ôl y cloeon y pandemig. Credwyd ar y pryd mai dros dro y byddai

cynnydd mewn chwyddiant. Fodd bynnag, ar gyfer Chwefror 2022 fe welwyd ffigwr o 6.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn, i fyny o 5.5% yn ystod y mis blaenorol yn ôl y Prif Swyddog Cyllid.

O ran y cyd-destun ariannol, fe eglurodd, bod cynyddu cyfradd Sylfaen y Banc o 0.1% i 0.25% ym mis Rhagfyr 2021 fe gododd Banc Lloegr y gyfradd ymhellach i 0.5% ym mis Chwefror 2022 a chynnydd pellach i 0.75% ym mis Mawrth 2022. Yn ystod mis Mawrth fe wnaeth Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) ddatgan bod goresgyniad yr Wcrain wedi achosi cynnydd sylweddol pellach mewn prisiau ynni a nwyddau eraill, gyda'r disgwyl y bydd y gwrthdaro yn gwaethygu'r gadwyn gyflenwi ledled y byd ac yn gwthio chwyddiant CPI i tua 8% yn ddiweddarach yn 2022.

Ychwanegodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod Trysorlys Ei Fawrhydi ym mis Awst 2021 wedi diwygio'n sylweddol y canllawiau ar gyfer cyfleuster benthyca PWLB. Bydd Awdurdodau sy'n prynu neu'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer arenillion, neu enillion ariannol, ni fydd yn gallu cael mynediad i'r PWLB ac eithrio i ail gyllido benthyciadau presennol neu i allanoli benthyciadau mewnol. Mae defnydd derbyniol o fenthyca PWLB yn cynnwys darparu gwasanaethau, tai, adfywio, gweithredu ataliol, ail-ariannu a rheoli'r trysorlys. Dangoswyd mwy o wybodaeth mewn perthynas â hyn ym mharagraff 4.2.2 o'r adroddiad.

O ran Alldro Rheoli'r Trysorlys, dywedodd fod crynodeb o weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2021-22 wedi'i ddangos yn Atodiad A o'r adroddiad. Dangoswyd sefyllfa'r ddyled a buddsoddiad allanol y Cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn Nhabl 1 o'r adroddiad. Rhoddwyd mwy o fanylion yn Atodiad A, Adran 2, Strategaeth ac Alldro Benthyca, ac Adran 3, Strategaeth Fuddsoddi ac Alldro. Ni chymerwyd unrhyw fenthyca hirdymor yn 2021-22 ac ni chyflawnwyd unrhyw aildrefnu dyled gan nad oedd unrhyw arbedion sylweddol i'w gwneud. Fodd bynnag, pe bai cyfle i aildrefnu unrhyw fenthyciadau ar gyfradd ffafriol, byddai hyn yn cael ei wneud. Mae llifoedd arian ffafriol wedi darparu arian dros ben ar gyfer buddsoddi a'r balans ar fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2022 oedd £84.07 miliwn, gyda chyfradd llog gyfartalog o 0.43%. Roedd hyn yn gynnydd o'r balansau ar 31 Mawrth 2021, pan oedd y balans yn cael ei nodi fel £51.55 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli o 0.21%.

Roedd Tabl 4 yn Atodiad A yn manylu ar symudiadau'r buddsoddiadau yn ôl mathau parti i gontract ac yn dangos y balansau cyfartalog, llog a dderbyniwyd, hyd gwreiddiol a chyfraddau llog ar gyfer 2021-22.

Wrth gyflwyno'r adroddiad cyfeiriodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid at yr arian a fuddsoddwyd gyda Chyngor Thurrock, gan fod nifer o aelodau wedi codi'r mater hwn gyda'r maes gwasanaeth.

Eglurodd fod buddsoddiadau wedi'u gwneud gyda'r Cyngor hwnnw yn flaenorol a bod yr arian bob amser wedi'i ddychwelyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r cytundeb a wnaed. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch lleoliad y benthyciadau presennol gyda Chyngor Thurrock, oherwydd eu hanawsterau ariannol a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r arian yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdod.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod gosod yr arian wedi'i wneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys y cytunwyd arni a bod cadarnhad wedi'i dderbyn gan Gyngor Thurrock y bydd y symiau perthnasol yn cael eu had-dalu ar y dyddiadau dyledus.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

1. Yn nodi'r gweithgareddau rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2021-22.

2. Yn nodi Dangosyddion Rheoli Trysorlys (gwirioneddol) ar gyfer 2021-22 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021-22.

50. PROTOCOL AR Y CYD – CYFRADDAU TEITHIO

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad, yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu'r Protocol ar y Cyd ar Gyfraddau teithio mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru fel trefniant dros dro.

Roedd y protocol ar y cyd ar gyfraddau teithio gyda cherbyd, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, wedi'i gymeradwyo gan Arweinwyr Grwpiau ar ran Bwrdd Gweithredol WLGA, ac wedi'i rannu â Gweithrediaeth Cyd-gyngor Cymru (JCW), ac mae undebau llafur wedi cytuno'n ffurfiol ar y cynnig a gofynnodd am gael ei weithredu cyn gynted â phosibl.

Eglurodd fod y protocol cenedlaethol yn weithredol o 26 Medi 2022, a oedd yn amserol o ystyried penderfyniad cynharach y Cyngor i weithredu'r gyfradd a argymhellir o 50 ceiniog y filltir yn y tymor byr, yn amodol ar adolygiad erbyn 30 Medi 2022, gyda'r gyfradd gyfredol yn 46 ceiniog y filltir. ac wedi bod ar y gyfradd honno am gryn amser.

Dywedodd fod yr Undebau Llafur perthnasol yn genedlaethol yn cefnogi'r cynnydd a bod penderfyniadau ynghylch hyn yn cael eu gwneud yn lleol gan awdurdodau lleol.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiadau, fe gadarnhaodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol mai'r gost flynyddol lawn o weithredu'r gyfradd newydd hon, yn seiliedig ar lefelau milltiroedd gwaith 2021/2022, yw £50,000 y flwyddyn. Gellir ariannu hyn ar hyn o bryd o'r cyllidebau milltiroedd presennol o ganlyniad i filltiroedd is na'r arfer ar hyn o bryd. Pe bai'r milltiroedd yn cynyddu yna gallai'r cyllid hwn fod mewn perygl.

Roedd y rhan fwyaf o'r milltiroedd gostyngol yn ymwneud â chyfarfodydd/hyfforddiant/cynadleddau sydd bellach yn cael eu cynnal yn rhithwir yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb yn hytrach na staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, e.e., gweithwyr gofal cymdeithasol.

Gan fod symudiad tuag at fwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd gwariant ar filltiroedd yn cynyddu a bydd gwariant yn erbyn cyllidebau yn cael ei fonitro'n gyson.

Daeth ei chyflwyniad i ben drwy ddatgan, pe bai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnydd yn dod i rym ar unwaith ac yn cael ei adolygu ar 31 Mawrth 2023.

Canmolodd yr Arweinydd yr adroddiad ac roedd yn gwerthfawrogi'r ffaith y byddai hyn o fudd i'r gronfa wrth gefn ar gyfer gweithiwr gofal cartref y Cyngor.

Gofynnodd Aelod petai prisiau petrol a diesel yn gostwng, a fyddai'r cynnydd arfaethedig yn cael ei adolygu ymhellach, ac atebodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y byddai hyn yn digwydd ar lefel Cymru Gyfan.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) Yn cymeradwyo mabwysiadu'r Protocol ar y Cyd ar gyfer Cyfraddau Milltiroedd o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 26 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023.

(2) Yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr gymeradwyo unrhyw estyniad, pe byddai'r protocol yn cael ei ymestyn am gyfnod hyd at 6 mis.

51. Y CYFANSODDIAD A CHANLLAWIAU'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a phwrpas yr adroddiad oedd i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfansoddiad diwygiedig a'r canllawiau cyfansoddiad.

Eglurodd fod cyfansoddiad enghreifftiol newydd wedi'i ystyried gan bob awdurdod lleol. Mae arddull y cyfansoddiad newydd yn fwy dealladwy i'r cyhoedd ac mae llai o ddyblygu. Er bod y model newydd yn cynnwys darpariaethau manwl, nid yw mabwysiadu'r cyfansoddiad enghreifftiol yn gofyn am fabwysiadu'r holl ddarpariaethau manwl hynny. Ac felly yn dilyn adolygiad lleol gan swyddogion, mae rhai o ddarpariaethau manwl presennol y Cyngor ynghylch rheolau gweithdrefn, codau ymddygiad a phrotocolau wedi'u nodi ac i'w cadw er mwyn cynnal parhad a chadw'r gwaith gwerthfawr sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd wrth adolygu pob rhan o'r cyfansoddiad presennol.

Eglurodd y Swyddog Monitro, er bod y cyfansoddiad drafft diwygiedig (Atodiad 1 i'r adroddiad) yn edrych yn dra gwahanol i'r fersiwn gyfredol, oherwydd ei natur, roedd y ddogfen yn cynnwys yr un elfennau i raddau helaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Rheolau Gweithdrefnol ar gyfer y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Craffu, Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Contractau a Chod Ymddygiad Aelodau. Mewn gwirionedd, gweddol fach yw maint y newidiadau mewn gwirioneddol o ran sut mae'r Cyngor yn gweithio gan mai'r farn gyffredinol yw bod elfennau arwyddocaol o'r cyfansoddiad presennol yn parhau i fod yn "addas i'r diben". O'r herwydd, mae elfennau arwyddocaol o'r adrannau sy'n llywodraethu sut mae'r Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Craffu yn gweithredu yn aros i raddau helaeth, os nad yn union yr un fath, â'r fersiwn gyfredol.

Ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn roedd canllaw y cyfansoddiad yn seiliedig ar ganllaw model Browne Jacobson a gafodd ei addasu i adlewyrchu trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor. Roedd y canllaw yn crynhoi'r cyfan o ddarpariaethau'r cyfansoddiad hefyd ynghlwm fel Atodiad 3.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau fod y Cyfansoddiad enghreifftiol a'r canllawiau wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 7 Gorffennaf 2022 ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid sefydlu Gweithgor gyda chefnogaeth y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i adolygu pob agwedd ar y cyfansoddiad fel rhan o'r daith i welliant.

Mae Atodiad 4 yn crynhoi'r materion a adnabuwyd drwy drafodaethau'r Gweithgor ac yn gosod cyfres o argymhellion gan y Grŵp i'w hystyried fel modd o wella llywodraethu da y Cyngor. Ers cyfarfod diwethaf y Gweithgor, dylid nodi bod newidiadau pellach wedi eu gwneud i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion (Adran 20) a hynny'n dilyn ymgynghoriad gyda'r Undebau Llafur.

Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fewnbwn y Gweithgor Trawsbleidiol a sefydlwyd i adolygu'r Cyfansoddiad diwygiedig.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 266 o'r adroddiad, paragraff 4.11.4 a chyhoeddiadau gan bwysigion a gofynnodd a ellid ystyried diwygio'r rhan hon o'r Cyfansoddiad, er mwyn caniatáu gofyn cwestiynau gan Aelodau ar hyn.

Cyfeiriodd hefyd at dudalen 395 a pharagraff 9.2.2 lle cyfeiriwyd at Bwyllgorau Rheoleiddio a gofynnodd, lle'r oedd yn nodi y gallai cynrychiolydd un Aelod Cabinet fod yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bod hwn yn cael ei ddileu. Cyfeiriodd hefyd at ddatganiadau chwipio a oedd yn berthnasol ar gyfer Trosolwg a Chraffu, a oedd hefyd yn berthnasol i Bwyllgorau eraill, er enghraifft, y Cyngor Llawn.

Dywedodd y Swyddog Monitro, mewn perthynas â Phwyllgorau Rheoleiddiol, fod awdurdodau lleol yn cael eu llywodraethu gan statud a oedd yn cynnwys y cyfansoddiad a argymhellir o gyrff fel y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (yn unol â'r uchod), ac felly bod yn rhaid i ni gadw at y ddeddfwriaeth hon.

Ychwanegodd y byddai cyfleoedd pellach yn y dyfodol lle gallai'r Aelodau ystyried adolygiad pellach o'r Cyfansoddiad fel dogfen waith, pe byddent yn teimlo bod angen hynny.

Cyfeiriodd Aelod at Adran 4.20 pwynt 4, paragraff (b) o'r adroddiad a lle cyfeiriwyd at bleidlais o ddiffyg hyder yn Arweinydd y Cyngor, lle dywedwyd bod diswyddo'r Arweinydd yn golygu bod angen 'dwy ran o dair' o'r Aelodau i bleidleisio ar yr adeg y gofynnir y cwestiwn. Cynigiodd welliant i hyn, sef newid y cyfeiriad at 'ddwy ran o dair' i 'fwyafrif' o'r Aelodau sy'n pleidleisio ar yr adeg y gofynnir y cwestiwn. Eiliwyd y cynnig hwn.

Aeth y gwelliant i bleidlais, a'r canlyniad oedd fel a ganlyn:-

O blaid (y gwelliant) – 16     Yn erbyn – 29     Ymatal - 0

Felly ni chafodd y gwelliant ei gefnogi'n ddigonol.

Yn dilyn y bleidlais hon, fe benderfynodd yr Aelodau y canlynol:

PENDERFYNWYD:     Bod y Cyngor:

• Yn cymeradwyo argymhellion Gweithgor y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Atodiad 4 i'r adroddiad);

• Yn cymeradwyo ymhellach y cyfansoddiad diwygiedig (Atodiad 1) a'r canllaw (Atodiad 2 a 3) a hynny i fod yn weithredol o 1 Rhagfyr 2022.

52. PENODI PANEL ARFARNU'R PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i eistedd ar arfarniad ac adolygiad perfformiad o'r Prif Weithredwr.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhywfaint o wybodaeth gefndirol ac yn dilyn hynny, cynigiwyd y dylid symud ymlaen i benodi i'r Panel uchod i baratoi ar gyfer yr arfarniad i'w gynnal ar 3 Tachwedd 2022.

Cytunodd yr Aelodau fod y Panel yn cynnwys yr aelodau a ganlyn:-

• Yr Arweinydd;
• Y Dirprwy Arweinydd;
• Cynghorydd S Griffiths;
• Yr Arweinydd/cynrychiolydd o blaid Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr;

• Arweinydd/cynrychiolydd o’r Gynghrair Ddemocrataidd (*Democratic Alliance*).

*PENDERFYNWYD:*

(1) Bod y Cyngor yn penodi'r Panel a fyddai’n gyfrifol am werthuso ac adolygu perfformiad y Prif Weithredwr, yn cynnwys yr aelodaeth a gynhwysir ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

(2) Nodwyd mai dyddiad y cyfarfod fyddai 3 Tachwedd 2022 am 2.00pm.

53. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL – NEWIDIADAU MEWN AELODAETH O’R PWYLLGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a phwrpas yr adroddiad oedd:

• hysbysu'r Cyngor am y canlyniad i’r addasiad i’r cydbwysedd gwleidyddol o fewn yr Awdurdod o ganlyniad i ethol y Cynghorydd Steven Easterbrook yn yr isetholiad diweddar yn Ward Ganolog Pen-y-bont ar Ogwr;

• ceisio cymeradwyaeth i'r cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig;

• cymeradwyo dyraniad y seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol, fel y nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad a chymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth y Pwyllgorau fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad hwn.

Esboniodd fod newid diweddar wedi bod i aelodaeth grwpiau gwleidyddol, pan etholwyd y Cynghorydd Steven Easterbrook (Annibynwyr Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) yn yr isetholiad diweddar ar gyfer Ward Ganolog Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y newid a amlinellwyd uchod felly wedi effeithio ar y cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol ar Bwyllgorau o fewn yr Awdurdod.

Oherwydd hyn, cynigiodd y Swyddog Monitro'r newidiadau a ganlyn i aelodaeth o’r Pwyllgorau, yn unol â darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1972:-

1. Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Cynghrair Democrataidd i golli sedd, Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr i ennill sedd.

2. Pwyllgor Rheolaeth Datblygu – Aelod Annibynnol i golli sedd, Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr i ennill sedd.

Yn dilyn yr adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol, mae aelodaeth y pwyllgorau wedi'i diweddaru i adlewyrchu cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny. Roedd y ffigurau cydbwysedd gwleidyddol wedi'u diweddaru gan gymryd i ystyriaeth yr uchod i'w gweld yn yr Atodiad sydd ynghlwm i'r adroddiad.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro, yr ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grwpiau Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr a'r Gynghrair Ddemocrataidd ynghyd â'r Cynghorydd Aspey, ar y newidiadau hyn a'u bod yn cytuno â nhw. Gofynnwyd i'r ddau Arweinydd Grŵp uchod gyhoeddi yng nghyfarfod y Cyngor ar 19 Hydref 2022, y newidiadau gofynnol fel y manylwyd arnyn nhw yn yr adroddiad, a adlewyrchir yn y penderfyniad isod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:-

(1) Yn nodi canlyniad cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig yr Awdurdod o ganlyniad i newidiadau i aelodaeth grwpiau gwleidyddol yn dilyn etholiad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cynghorydd Steven Easterbrook yn yr isetholiad yn Ward Canol Pen-y-bont ar Ogwr;

(2) Yn cymeradwyo cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig (y Cyngor);

Yn cymeradwyo'r dyraniad diwygiedig o seddi i grwpiau gwleidyddol ac mewn perthynas â'r Cynghorydd Aspey yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn a'r newidiadau a argymhellwyd o ganlyniad i aelodaeth y Pwyllgorau, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1. o'r adroddiad, sef bod y Cynghorydd S Easterbrook yn ennill sedd ar Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor a'r sedd ar y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, gyda'r seddi hyn yn cael eu hildio gan y Cynghorwyr S Aspey ac E Richards, yn y drefn honno.

54. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

55. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL I'R PWYLLGOR GWAITH

**Cwestiwn gan y Cynghorydd G Walter i'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

*A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ddweud wrthyf beth rydym yn ei wneud fel Cyngor i recriwtio i swyddi gwag?*

Cadw a recriwtio'r gweithlu gofal cymdeithasol yw'r flaenoriaeth uchaf i'r Cyngor.

Mae'n bwysig bod rolau o fewn y Cyngor yn cynnig cyflog teg a chystadleuol gan ystyried y farchnad ar gyfer swyddi mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Cymeradwyodd y Cyngor y polisi taliadau atodol ar sail y farchnad (*market supplement policy*) ym mis Hydref 2021 ac mae'r atodiad hwnnw wedi'i gymhwyso lle mae'r meini prawf ar ei gyfer wedi'u bodloni ym maes gofal cymdeithasol plant. Yn ogystal, bu adolygiad ehangach o ddisgrifiadau swydd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y dyletswyddau a gyflawnwyd. Mae'r adolygiad hwn yn ei dro wedi arwain at werthuso rhai rolau, fel gweithwyr cymdeithasol profiadol, ar radd uwch.

Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio amrywiaeth o gamau gweithredu i sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn ddeniadol i ddarpar weithwyr. Mae siarteri gweithlu ar gyfer galwedigaethau allweddol mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu llunio sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i weithwyr fel cyflogwr hyblyg a chefnogol lle gall pobl ddechrau, a datblygu, eu gyrfaoedd. Y sylfaen ar gyfer cymorth i weithlu gofal cymdeithasol yw goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd da a'r cyfle i ddatblygu eu gyrfaoedd a chael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd rhagorol. Mae'r agweddau hyn yn greiddiol i'r siarter.

Mae ffocws mawr ar lesiant y gweithlu gyda mynediad amserol at adnoddau llesiant corfforaethol a chefnogaeth arbenigol pan fo angen. Mae adolygiadau o'r cymysgedd o sgiliau wedi'u cynnal. Mae hyn wedi arwain at greu rolau swyddogion cymorth gwaith

arloesol yn y maes cymdeithasol sy'n golygu bod gweithwyr cymdeithasol â chymwysterau proffesiynol yn cyflawni dyletswyddau y gallan nhw'n unig eu cyflawni a bod cyfleoedd i weithwyr nad ydyn nhw'n weithwyr cymdeithasol symud ymlaen a datblygu eu gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol.

Gan gydnabod yr heriau yn y farchnad recriwtio gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn buddsoddi'n sylweddol mewn cynyddu ein gweithlu ein hunain ar gyfer y dyfodol. Mae rolau prentisiaeth mewn gofal cymdeithasol a chymorth busnes hefyd wedi'u creu. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi penodi 16 o bobl fel secondai a hyfforddeion gwaith cymdeithasol i'r cwrs gradd gwaith cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yng ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu a gweithredu llwybrau gyrfa i ofal cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn gyflogwr hyblyg ac mae'n hyrwyddo gweithio hybrid a hyblygrwydd cyfeillgar ar gyfer bywyd teuluoedd ar gyfer y gweithlu ac mae hyn yn cael ei amlygu yn y llenyddiaeth ar gyfer recriwtio. Mae staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal uniongyrchol yn y gwasanaethau oedolion a phlant yn cael dewis o oriau cytundebol i adlewyrchu eu hanghenion nhw. Mae cyfnodau pythefnos 9 diwrnod yn cael eu hyrwyddo o fewn timau gwaith cymdeithasol ac mae pecyn adleoli hael ar gael i bobl sy'n symud i ardal Pen-y-bont ar Ogwr i ymgymryd â swydd.

Mae rhwystrau i weithio mewn rolau penodol yn derbyn sylw, er enghraifft, bydd rota yn cael ei newid i hwyluso gweithwyr i waith yn y sector gofal cartref. Mae ystwythder hefyd ar gyfer gweithlu sydd ddim yn gyrru. Mae cerbydau trydan hefyd yn cael eu prynu ar gyfer gweithlu sy'n gallu gyrru ond nad oes ganddyn nhw gerbyd ar gyfer y gwaith.

Yn ogystal â'r gwaith i ddenu gweithlu o bob rhan o Gymru a'r DU i Ben-y-bont ar Ogwr, mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i recriwtio'n rhyngwladol i swyddi lle mae prinder. Rydym wedi cysylltu ag asiantaeth arbenigol i recriwtio gweithwyr cymdeithasol ac yn ystyried recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhyngwladol.

Lle gallai partneriaid fod mewn sefyllfa well i recriwtio gweithwyr, rydym yn gweithio'n agos gyda nhw ac yn datblygu ein perthynas â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i recriwtio gweithwyr gofal a chefnogi eu gwaith o fewn ein timau integredig.

Rydym yn gwella'r ffordd yr ydym yn marchnata ac yn hyrwyddo rolau, gan gydnabod pa mor gystadleuol yw marchnadoedd recriwtio ar hyn o bryd, gan gydnabod bod mwy i'w wneud i hyrwyddo'r cyfleoedd yn gadarnhaol i ddarpar recriwtiaid. Cyfeiriodd un gweithiwr cymdeithasol sydd newydd ei benodi i Ben-y-bont ar Ogwr fel 'perl cudd'. Mae hyn yn amlygu'r angen i hyrwyddo profiadau cadarnhaol pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Mae swydd swyddog marchnata gofal cymdeithasol newydd yn cael ei chreu i gefnogi'r gwaith hwn. Mae ffeiriau recriwtio gofal cymdeithasol pwrpasol yn cael eu cynnal ledled y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r ffeiriau recriwtio ar gyfer holl rolau'r Cyngor.

Credaf ei bod hefyd yn bwysig nodi bod recriwtio a chadw ein gweithlu yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei drafod o fewn Rhwydwaith Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru, gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at ein pryderon dybryd ynghylch ar angen i gynllunio ar gyfer sicrhau gweithlu digonol yn genedlaethol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd G Walter**

*Pa rôl all y Cyngor ei chwarae, hynny yw'r 51 Aelod, ei wneud wrth gynorthwyo gyda recriwtio?*

Mae angen i ni edrych ar ein holl brosesau recriwtio a'n mynediad ar y cyfryngau cymdeithasol gyda golwg ar annog ymgeiswyr. Fel Cynghorwyr, mae gan bob un ohonom rôl rhianta corfforaethol a mater i bob un ohonom yw adnabod a chydnabod y rôl hon a'r cyfrifoldebau a ddaw yn ei sgil. Mae'r cyfrifoldeb hwnnw yn cael ei gario gyda chi lle bynnag yr ydych chi ar unrhyw amser. Bydd sesiwn Datblygiad Aelodau ar Rianta Corfforaethol fel rhan o Raglen Datblygiad Aelodau sydd ymlaen ar hyn o bryd ac rwy'n pwyso arnoch i fod yn bresennol. Bydd hwn yn berthnasol ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn Gynghorwyr ers amser gan ei fod yn cynnig hyfforddiant diweddaru yn y maes hynod bwysig yma.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd E Winstanley**

*A oes gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar hyder y byddwn yn gallu bodloni gofynion gofal a chymorth ar gyfer ein preswylwyr sy'n agored i niwed yn ystod misoedd y gaeaf?*

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel Cynghorau eraill ledled Cymru, mae heriau sylweddol o ran darparu a sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth digonol yn y cartref i ddiwallu anghenion gofal asesedig ein preswylwyr mwyaf agored i niwed.

Yr wyf yn ffyddiog fod y Cabinet a'r swyddogion yn gwneud popeth o fewn ein gallu i geisio cefnogi a gwella ein gwasanaethau gofal cartref mewnol a gomisiynir, ond rhaid cydnabod nad ydym bob amser yn gallu diwallu'r angen am wasanaethau mewn modd amserol oherwydd lefel yr angen a heriau'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol.

Er mwyn cefnogi a helpu i gynyddu capasiti o fewn y sector a gomisiynir, mae darparwyr gofal cartref annibynnol wedi cael £1/awr ychwanegol o fis Awst 2022 hyd at fis Mawrth 2023. Mae meini prawf clir bod yn rhaid i'r cyllid ychwanegol gael ei drosglwyddo i weithwyr gofal i helpu gyda chynnydd mewn costau tanwydd, lle bo angen hynny, a/neu mae'n rhaid eu defnyddio i gynorthwyo gyda recriwtio a chadw staff i gynyddu ein gallu i ddelio gyda'r pwysau presennol ac hefyd yn y dyfodol.

O safbwynt gwasanaethau mewnol, mae gwaith parhaus (*on-going*) ar gyfer gweithwyr gofal yn cynnwys:

• Staff presennol yn cael y cyfle i gynyddu oriau eu cytundeb.

• Digwyddiadau recriwtio cymunedol/ymgyrchoedd marchnata yn cael eu cynnal.

• Mae'r gwasanaeth wedi ystyried ceisiadau gan unigolion nad ydyn nhw'n gyrru a digwyddiadau recriwtio a gynlluniwyd mewn meysydd allweddol ar gyfer unigolion nad ydyn nhw'n gyrru.

• Mae cyfraddau teithio â cherbyd wedi cynyddu i £0.50/milltir, sy'n cyd-fynd â newidiadau diweddar ym maes iechyd ac mewn ymateb i'r pwysau sy'n bodoli.

• Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ganfod cyfleoedd ar gyfer penodiadau ar y cyd i'n timau integredig.

Mae rhai opsiynau tymor hirach hefyd yn cael eu hystyried fel dull o wneud gwasanaethau gofal cartref mewnol yn fwy deniadol. Maen nhw'n cynnwys:

• Adolygu patrymau gwaith presennol a symud i ffwrdd o drefniant 'sifftiau hollt'

• Ystyried llunio cais o dan y Polisi Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad.

• Mae dewisiadau hefyd yn cael eu trafod ar gyfer defnyddio cerbydau trydan cyfun a mwy o recriwtio y 'cerddwyr'.

O ran goruchwylio'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae bwrdd prosiect wedi ei sefydlu ar gyfer edrych ar y pwysau o fewn y gwasanaethau oedolion sefydledig (dan Gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol). Mae hefyd yn monitro ac olrhain cynnydd ac effeithiolrwydd camau gweithredu amrywiol bob pythefnos, yn ogystal â dadansoddi mesurau allweddol, fel gwybodaeth am gapasiti'r gweithlu a rhestrau aros.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Davies**

*O ystyried digwyddiadau diweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr a adroddwyd yn y wasg a thrwy raglenni dogfen', a oes gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar hyder bod adran Gwasanaethau Plant yn addas at y diben a bod y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu yn ddiogel ac yn effeithiol?*

Mae fy ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyd-fynd â'r arolygiad gwerthuso perfformiad diweddar o wasanaethau plant Pen-y-bont ar Ogwr gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd yr adroddiad arolygu hwnnw'n cydnabod bod y cyd-destun ar gyfer darparu gofal cymdeithasol plant effeithiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn heriol iawn. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn profi ac yn mynd i'r afael â materion y mae llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a thu hwnt yn eu hwynebu.

Mae gwasanaethau plant ledled Cymru yn cael eu herio'n arbennig o ran ymateb i anghenion cynyddol plant a theuluoedd yn dilyn y cyfyngiadau symud pandemig, ochr yn ochr â'r anawsterau o sicrhau gweithwyr cymdeithasol parhaol a sicrhau bod digon o lety, gwasanaethau gofal a chymorth ar gael ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal pan fo angen hynny.

Rwy'n hyderus bod gennym y blaenoriaethau cywir ar gyfer gwasanaethau plant drwy'r cynllun strategol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2021. Amlygodd yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Mai fod nifer o welliannau eisoes wedi'u cyflawni ers arolygiad blaenorol a gynhaliwyd y llynedd, ochr yn ochr â'r meysydd i'w gwella'n sylweddol. Fe wnaeth AGC gydnabod fod gan y Cyngor gynllun gweithredu cadarn ar waith, sy'n nodi camau gweithredu dros y 3 blynedd nesaf i wella'r gweithlu, arfer dda, partneriaethau, darpariaeth a sut rydym yn clywed ac yn gweithredu ar lais plant a theuluoedd.

Amlygodd yr arolygiad fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i sicrhau bod cymorth corfforaethol cadarn ac adnoddau wedi'u blaenoriaethu i gyflawni'r gwelliannau hyn a nodwyd er mwyn mynd i'r afael yn gynaliadwy ag amrywiadau yn ansawdd gwasanaethau ac arferion gwaith cymdeithasol. Mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet a minnau yn parhau i arfer arweinyddiaeth a goruchwyliaeth, ochr yn ochr ag uwch swyddogion atebol, ar gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

Rwy'n hyderus bod arweinyddiaeth wleidyddol a goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol. Drwy'r llywodraethu rydym wedi'i sefydlu drwy'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant fel ein bod yn cael ein gweld, ac mewn sefyllfa i sicrhau, bod gofal cymdeithasol plant yn cyflawni dyletswyddau statudol ac yn gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd. Mae 'addasrwydd at y diben' gofal cymdeithasol plant yn dibynnu'n fawr ar hyn o bryd ar gysylltu â gweithlu interim. Mae Pen-y-bont ar Ogwr, yn gyffredin â Chynghorau eraill, wedi cysylltu â nifer cynyddol o weithwyr asiantaeth ar gyfer timau gwaith cymdeithasol plant er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol a darparu'r cymorth sydd ei angen ar blant a theuluoedd.

Rydym yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a bu cyfle yn ddiweddar i gyfarfod â’r Dirprwy Weinidog ac rydym yn bwrw ymlaen i wireddu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella. Y gweithlu sydd â’r flaenoriaeth uchaf yn ein cynllun gwella 3 blynedd ac fel awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi cymryd camau penodol i gadw a recriwtio gweithwyr cymdeithasol plant yn y farchnad gyflogaeth heriol iawn ar ôl Covid. Yn ogystal â nifer o gamau gweithredu tymor byr, fel cymhwyso'r taliadau atodol ar sail y farchnad, rydym yn cefnogi mwy o'n gweithlu i ennill cymwysterau proffesiynol, gan gynnwys cynllun meithrin gweithwyr lleol ('grow your own') sy’n sylweddol uwch o secondai a hyfforddeion a recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn rhyngwladol i Ben-y-bont ar Ogwr.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Alex Williams i’r Aelod Cabinet – Cymunedau**

*A yw’r Aelod Cabinet dros Gymunedau yn fodlon â’r ffordd y mae gwasanaeth sbwriel ac ailgylchu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei weithredu gan y darparwr gwasanaeth presennol; yw’n fodlon bod y gwasanaeth yn cyflawni’r cytundeb fel y’i nodir yn nhelerau’r contract; a beth sy'n cael ei wneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a wynebir gan y gweithredwr yn ystod yr estyniad ‘stop-gap’ i'r contract lle na fydd llawer o gymhelliant masnachol i'r gweithredwr wella'r gwasanaethau a ddarperir?*

Mae gan y contract presennol gyda *Kier* 18 mis ar ôl cyn iddo ddod i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae manyleb ar gyfer contract dwy flynedd byr yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd a fydd yn weithredol o Ebrill 2024 - Mawrth 2026. Mae *Kier* yn tynnu allan o'r farchnad wastraff felly ni fyddan nhw’n gwneud cais am y contract byr hwn.

O ran casgliadau a rheolaeth ein 3 CRC, mae *Kier* yn perfformio’n dda iawn*. Mae casgliadau a fethwyd hefyd yn isel iawn ar gyfradd o 43 fesul 100,000 yn* gyffredinol ar gyfartaledd. Yn nodweddiadol, gwneir ychydig dros 430,000 o gasgliadau bob mis felly mae cyfradd y casgliadau a fethwyd yn isel. Mae arfer dda nodweddiadol yn y sector hwn yn cael ei gydnabod ar 50 o achosion o fethu bob 100,00 ar gyfer casgliadau wythnosol ac 80 fesul 100,000 ar gyfer casgliadau bob pythefnos.

O ran y gost, mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd y mis hwn gan WLGA yn rhestru Pen-y-bont ar Ogwr fel yr awdurdod sydd â'r pedwerydd isaf o ran costau gwastraff cartrefi ac ailgylchu o'r 22 awdurdod yng Nghymru. O gymharu ffigurau Ionawr i Awst eleni â’r llynedd, mae casgliadau ailgylchu a fethwyd wedi gostwng ychydig dros 20%. Mae cwynion a dderbyniwyd bron wedi haneru yn ystod yr un cyfnod.

Mae ceisiadau am gynhwysyddion ailgylchu wedi cynyddu 15% o gymharu eleni â'r llynedd sy'n debygol o fod oherwydd bod yr awdurdod yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn fwy.

Mae perfformiad ailgylchu ein CRCs ar hyn o bryd ar gyfartaledd ychydig dros 90%. Un maes lle cydnabyddir bod *Kier* wedi cael problemau yw cyflwyno sachau sbwriel glas a bagiau bio, gan arwain at gwynion yn y maes gwasanaeth penodol hwn. Mae hyn wedi digwydd oherwydd materion staffio oherwydd Covid, salwch a'r gallu i recriwtio staff.

Ym mis Awst defnyddiwyd adnoddau ychwanegol, gan gynnwys gweithio ar benwythnosau lle'r oedd hynny'n bosibl i ddal i fyny ar yr ôl-groniad. Yn fwy diweddar, roedd problemau staffio parhaus a gwaith dal i fyny ar wyliau banc yn golygu bod y cyflenwadau fesul cam wedi llithro. Er mwyn dal i fyny, dyrannodd *Kier* 5 rownd i ddosbarthu ar ddydd Sadwrn a dydd Sul er mwyn mynd yn ôl ar y trywydd iawn cyn gynted â phosibl. Rhoddwyd yr adnodd ychwanegol hwn ar waith ar gost i *Kier* i'w galluogi i ddod yn ôl ar y trywydd iawn. Mae *Kier* bellach yn ôl lle y dylent fod gyda

danfoniadau yn unol â'r amserlen gyhoeddedig. Mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhan hon o'r gwasanaeth yn agos. Dyrennir pwyntiau rhagosodedig hefyd trwy fecanwaith talu'r contract lle na chydymffurfir â nifer o safonau gan gynnwys dosbarthu cynwysyddion.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r pwyllgor craffu, mae arolygon bodlonrwydd y cyhoedd dro ar ôl tro yn dangos lefel uchel amlwg o fodlonrwydd â'r gwasanaeth gwastraff. Bydd ein tîm contract gwastraff yn parhau i fonitro'r gwasanaeth i sicrhau bod hyn yn parhau tan ddiwedd cyfnod y contract gyda *Kier* ac yn parhau ag unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alex Williams**

*Diolch i'r Aelod Cabinet am ei ymateb ysgrifenedig a nododd hefyd ei werthfawrogiad o'r cysylltiad gydag ef gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau a'i thîm ar y materion a godwyd o fewn y cwestiwn yn y cyfnod rhwng nawr a phan ofynnwyd y cwestiwn gyntaf.*

*Sut fydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod Kier yn bodloni ei rwymedigaethau cytundebol tan ddiwedd eu contract yn 2024 a sut y bydd y fanyleb newydd ar gyfer y contract dwy flynedd o 2024 - 2026, yn sicrhau bod cymhelliad masnachol i gynnal perfformiad uchel mewn rhai ardaloedd (a gwella'r gwasanaethau a ddarperir mewn eraill) er budd trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont o ystyried hyd cymharol fyr y contract.*

**Ymateb**

Mae'r Contract presennol yn cynnwys amodau ynddo sy'n cynnwys cosbau llym os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni, fel yr oedd yn ofynnol i'r Contractwr. Byddai'r Contract arfaethedig ar gyfer yr estyniad dwy flynedd o leiaf yn cynnwys yr un amodau llym fel rhan o'r Cytundeb hwnnw, er mwyn sicrhau lefel uchel o berfformiad i'r dyfodol.

**Nodyn:**

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn olaf i'r Pwyllgor Gwaith oddi wrth y Cynghorydd Ian Williams fel yr amlinellwyd yn Eitem 17 ar yr Agenda wedi'i ddosbarthu'n flaenorol. Nodwyd bod y Cynghorydd Williams wedi colli ei gysylltiad band eang gyda'r cyfarfod ar yr adeg hon yn y trafodion. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw gwestiynau atodol i'r cwestiwn gwreiddiol a ofynnwyd gan y Cynghorydd Williams.

56. RHYBUDD O GYNNIG A GYNIGIWYD GAN Y CYNGHORYDD ALEX WILLIAMS

Cyflwynodd y Cynghorydd Williams welliant i'w Rybudd o Gynnig gwreiddiol, fel yr amlinellwyd yn Eitem 18 ar Raglen y cyfarfod heddiw, yn dilyn peth ymgynghori a chydweithio adeiladol gyda'r Aelod Cabinet - Addysg. Arweiniodd y gwelliant hwn at ddisodli'r cynnig gwreiddiol gyda'r hyn a gynigiwyd fel a ganlyn:-

'Bod y Cyngor hwn yn:

Yn cadarnhau y bydd y Cabinet yn adolygu Polisi a Threfniadau Derbyn i Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Polisi Teithio ar gyfer dysgwyr a bod y Cabinet yn cydnabod yr holl bwyntiau a godwyd ganddo yn y cynnig gwreiddiol a fyddai i gyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. '

Fel rhan o'i sylwadau, dywedodd y Cynghorydd Williams ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn gohebiaeth gan y Cabinet ar amserlen yr adolygiad, fel y gellir craffu ar y ddau bolisi drwy gyfrwng y broses Trosolwg a Chraffu maes o law.

Fel dull o gydsynio, fe gefnogodd aelodau'r Cyngor y Rhybudd o Gynnig diwygiedig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Williams.

57. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:15

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT/HYBRID, DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD 2022, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | C L C Davies | P Davies |
| M J Evans | N Farr | P Ford | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | RM James |
| P W Jenkins | M R John | MJ Kearn | W J Kendall |
| M Lewis | J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick |
| T Thomas | G Walter | A Wathan | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | I Williams | MJ Williams |
| R Williams | E D Winstanley | T Wood | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, J Llewellyn-Hopkins, RL Penhale-Thomas, I M Spiller a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |

59. DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd J Pratt fuddiant personol yn eitem 5 ar yr agenda fel aelod o Wasanaeth Cymorth Argyfwng y Groes Goch Brydeinig.

60. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y CANLYNOL:

Maer

Yn dilyn awgrym gan swyddogion a chyda chytundeb y cadeirydd, bydd cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a drefnwyd ar gyfer 29 Rhagfyr yn cael ei symud i ddydd Iau, 5 Ionawr 2023, er mwyn osgoi cyfnod y Nadolig / Blwyddyn Newydd. Bydd calendrau aelodau'n cael eu diweddaru yn unol â hynny i adlewyrchu'r newid hwn yn nyddiad y cyfarfod.

Mae'r Dirprwy Faer a minnau'n parhau i gyflawni cyfrifoldebau dinesig ar draws y fwrdeistref sirol gyfan a thu hwnt.

O ymweld ag ysgolion a cholegau, mynychu cyngherddau gyda'r nos a chael y fraint o fynychu nifer o seremonïau gwobrwyo, mae'n sicr yn gyfnod prysur.

Ond mae'n amser i atgoffa bod yna bobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'w dyletswydd i helpu'r rhai sy'n llai ffodus na ni.

Sy'n dod â mi at bwynt lle hoffwn eich atgoffa i gyd fod y broses enwebu ar gyfer Gwobrau'r Maer bellach ar agor. Dylai pob un ohonoch fod wedi derbyn neges e-bost yn cyflwyno'r broses ac wrth gwrs mae manylion llawn hefyd wedi'u cynnwys ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Edrychaf ymlaen at y ceisiadau niferus.

Roedd y penwythnos diwethaf wrth gwrs yn gyfnod o goffa pan wnaethoch chi i gyd, yn ddiamau, fynychu gwasanaethau a seremonïau coffa amrywiol ar draws y fwrdeistref sirol.

Fore Gwener diwethaf ar eich rhan, cyflwynais dorch pabi i Great Western Railway, a gludwyd i Lundain ynghyd â llawer o rai eraill. Ymunwyd â mi yn yr orsaf reilffordd gan y Dirprwy Arglwydd Raglaw, Maer Pen-y-bont ar Ogwr y Cynghorydd Tim Woods, Dirprwy Arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Jane Gebbie, y Prif Weithredwr Mark Shepherd a llawer o bwysigion lleol eraill.

Roedd yn dipyn o olygfa gweld un cerbyd yn llawn torchau pabi.

Wrth gwrs, roedd Gorymdaith y Cofio yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr yn achlysur difrifol a fynychwyd gan sawl un, yn arbennig gan bersonél presennol a chyn-aelodau'r lluoedd arfog. Roedd presenoldeb a chyfranogiad y cyhoedd yn anhygoel. Mae'r niferoedd cyhoeddus mawr hyn yn dangos y parch a'r didwylledd dwfn sydd gan ein cymunedau tuag at ein lluoedd arfog. Nid oes gennyf amheuaeth bod y parch hwn wedi'i ailadrodd ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Y penwythnos diwethaf, cefais wahoddiad i gyflwyniad yng Nghanolfan Gymunedol Wildmill i ganolbwyntio ar berthynas Pen-y-bont ar Ogwr â llong danfor adeg rhyfel HMS Urge. Rhoddwyd y cyflwyniad ar y cyd gan Francis Dickinson, ŵyr capten y llong danfor, a'r Cynghorydd Steve Bletsoe.

Roedd disgynyddion llawer o deuluoedd yn bresennol, gan gynnwys, yn rhyfeddol, merch capten y llong, gwraig hyfryd, swynol, a gyflwynodd ei hun fel Bridget.

Mabwysiadwyd HMS Urge gan bobl Pen-y-bont ar Ogwr ond, yn anffodus, fe'i collwyd ym mis Ebrill 1942 oddi ar arfordir Malta. Bu farw pob un o'r 44 aelod o'r criw. Roedd y llong danfor wedi taro ffrwydryn môr Almaenig yn ystod gweithrediadau arbennig.

Nid tan 2019 a bron i 80 mlynedd yn ddiweddarach y darganfuwyd y llong ar waelod gwely'r môr.

Roedd yn brofiad teimladwy iawn siarad â disgynyddion o'r teulu ac roedd rhai ohonynt yn amlwg dan deimlad yn ystod ac ar ôl y cyflwyniad.

Roeddent i gyd yn werthfawrogol iawn o'r cynhesrwydd a'r lletygarwch a ddarparwyd iddynt ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Roedd aelodau'r teulu hefyd yn bresennol ac yn gosod torch yn Seremoni'r Cofio ddydd Sul.

A gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr am gefnogi'r digwyddiad hwn ac yn arbennig i'r Cynghorydd Steve Bletsoe a'i wraig y Cynghorydd Freya Bletsoe am eu cyfraniad personol.

Nid oes amheuaeth bod y gefnogaeth hon wedi codi proffil Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ac, yn olaf, mynychais Castle Bingo yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar, lle cyflwynwyd siec o £2,000 i mi ar gyfer Elusen y Maer.

Bydd hwn yn cael ei roi yn y gronfa i gefnogi'r rhai sy'n cael eu dal yn y sefyllfa ofnadwy yn Wcráin.

A gaf i ddiolch i holl staff ac aelodau Castle Bingo am y rhodd hael hon? A gaf i hefyd eich gwahodd chi i wneud cyfraniad hefyd?
Efallai yn lle anfon cerdyn Nadolig, byddai rhodd fechan i'r elusen yn rhywbeth sy'n fwy na chyfartal i ddathlu'r Nadolig yn lle.

Byddaf yn estyn allan yn fuan at holl aelodau a swyddogion yr awdurdod gyda gwahoddiad i wneud y rhodd honno.

Hoffwn hefyd dynnu sylw'r aelodau at y ffaith y bydd Diwrnod AIDS y Byd ymhen pythefnos ar 1 Rhagfyr cyn y cyfarfod nesaf.
Mae Diwrnod AIDS y Byd yn foment y byddwn yn cymryd amser i fyfyrio a chofio pawb yr ydym wedi'u colli i epidemig HIV AIDS.

Mae eleni hefyd yn nodi 40 mlynedd ers creu Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, a enwyd ar gyfer Terry Higgins o Orllewin Hwlffordd, a oedd yn un o'r bobl gyntaf yn y DU i farw o AIDS yn anffodus. Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn gweithio ar draws y DU i gefnogi'r rhai sy'n byw gydag HIV. Heddiw, ni all pobl sy'n byw gydag HIV sy'n cael triniaeth effeithiol drosglwyddo'r feirws ac mae ganddynt ddisgwyliad oes sydd yr un fath ag unrhyw un arall.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl sy'n byw gydag HIV yn dal i wynebu stigma oherwydd safbwyntiau hen ffasiwn. Rwy'n croesawu gwaith Llywodraeth Cymru ar gael gwared ar y stigma hwn fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru ar HIV.

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Wythnos Ddiogelu 2022 ar y gweill ar hyn o bryd, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid o dan faner Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau addysgol a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Y thema ar gyfer eleni yw 'diogelu ein cymunedau rhag cam-fanteisio', ac rydym yn tynnu sylw at hyn drwy ystod o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb sydd wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol, plant, pobl ifanc a chymunedau ar draws y rhanbarth.

Bydd hyn yn cynnwys lansio Safonau Diogelu, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol cwbl newydd gan Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn cyd-fynd yn agos â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'r safonau'n nodi disgwyliadau'r dyfodol o ran gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion a phlant a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.

Yn ogystal â'r safonau newydd – y cyntaf i Gymru – mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau wedi'i chynhyrchu ar gyfer yr wythnos gyfan. Mae hon ar gael i'w gweld ar wefan Cwm Taf, a byddwn yn annog aelodau i edrych yn agosach arni a hefyd i aelodau gael cipolwg ar yr arddangosfa Camfanteisio Rhywiol wrth i chi fynd i mewn i'r adeilad dinesig.

Hoffwn hefyd roi gwybod i aelodau am waith dwy elusen deilwng iawn.

Yn gyntaf, mae Grŵp Cefnogi Colli Babanod Bro Morgannwg lleol wedi bod yn cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth ers mwy na deng mlynedd bellach, gan gyfarfod ar nos Fercher cyntaf pob mis yn Ysbyty Tywysoges Cymru rhwng 7pm a 9pm.

Mae’r grŵp yn cael ei hwyluso gan ddwy fydwraig profedigaeth ac mae’r cyfarfodydd yn cynnig amgylchedd diogel a chyfrinachol lle gall pobl wrando ar brofiadau mamau eraill sydd wedi cael profedigaeth, rhannu eu profiadau eu hunain, a chynnig cyngor a chefnogaeth i’w gilydd.

Yn ail, bydd y mudiad CRY yn codi ymwybyddiaeth o’i waith yr wythnos nesaf, a byddwn yn gwerthfawrogi cefnogaeth yr holl aelodau, swyddogion ac aelodau’r cyhoedd, sy’n bersonol iawn i mi.

Mae CRY, sy’n sefyll am Ymchwil Gardiaidd mewn Pobl Ifanc (Cardiac Research in the Young), yn ceisio atal marwolaethau cardiaidd ymhlith pobl ifanc trwy wella ymwybyddiaeth, cynyddu argaeledd sgrinio, a chefnogi ymchwil bellach i’r cyflwr.

Mae'r elusen hefyd yn ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr cardiaidd yn ogystal ag aelodau teulu'r rhai nad ydynt wedi goroesi.

Ar hyn o bryd, mae CRY yn cefnogi fy merch, fy mab-yng-nghyfraith a thri o wyrion ac wyresau, sydd i gyd mewn perygl o gael digwyddiad cardiaidd mawr. Mae profion genetig yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda chefnogaeth yr elusen yn ogystal â'r diffibriliwr cludadwy a roddir i'r teulu i'w ddefnyddio mewn argyfwng amlwg.

Ar ôl teimlo effaith digwyddiad mor drawmatig yn ein teulu, teimlaf ei bod yn hanfodol bwysig fy mod yn defnyddio’r llwyfannau gwleidyddol sydd ar gael i mi i dynnu sylw at yr elusen benodol hon yn dilyn marwolaeth fy ŵyr 19 oed ym mis Ionawr 2020. Nid yw’n lleddfu poen colled Justin mewn unrhyw ffordd, ond efallai y bydd o gymorth i deuluoedd eraill drwy godi ymwybyddiaeth o’r materion penodol hyn ac rwy’n cydnabod y cymorth y maent wedi’i roi i ni nad yw ar gael gyda’r GIG.

Mae CRY a Grŵp Cymorth Colli Babanod Bro Morgannwg yn darparu gwasanaethau pwysig i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae’r ddau ohonynt yn haeddu ein cefnogaeth, a gobeithio y bydd yr aelodau’n rhoi gwybod i’w hetholwyr eu bod ar gael.

Gall unrhyw un a hoffai gael rhagor o wybodaeth wneud hynny drwy ymweld â gwefannau'r ddwy elusen neu drwy ymweld â lolfa'r aelodau, lle rwyf wedi gadael llu o adnoddau i'w harchwilio.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Mae gennyf newyddion rhagorol yr hoffwn eu rhannu â’r aelodau.

Diolch i ymdrechion trigolion lleol, mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr unwaith eto wedi rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu gwastraff a'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi.

Mae’r ffigurau diweddaraf wedi cadarnhau ein bod wedi cyflawni cyfradd ailgylchu o 72.6 y cant. Mae hyn yn golygu, o ran perfformiad, bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi’i rhestru fel yr ail ardal orau yng Nghymru, gyda dim ond Sir Benfro yn sgorio ychydig yn uwch.

Ar ben hynny, rydym yn un o ddim ond pedwar awdurdod lleol sydd nid yn unig wedi rhagori ar y targed ailgylchu presennol o 64 y cant, ond sydd eisoes wedi rhagori ar darged cenedlaethol 2024-25 o 70 y cant.

Mae hwn yn ganlyniad gwych. Bob tro y bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r bar, mae trigolion lleol yn ymateb i'r her i sicrhau ein bod ymhlith y gorau yng Nghymru, ac rwyf am ddiolch iddynt am eu hymrwymiad a chyfranogiad parhaus.

Rwyf hefyd am ddiolch i ymdrechion ein staff ymroddedig a'n partneriaid gwastraff, Kier.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed heriol i gyflawni dim gwastraff yng Nghymru erbyn 2050 drwy symud i economi gylchol sy'n cadw adnoddau mewn defnydd.

Mae ein hymdrechion ar y cyd yma ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r uchelgais hwn.

Aelod Cabinet – Adnoddau

Hoffwn ofyn i'r aelodau helpu i ledaenu ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau lleol am y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Wedi'i sefydlu fel menter gan y llywodraeth ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011, gwelodd y cynllun bob plentyn yn derbyn £250 i ddechrau cyfrif cynilo hirdymor.

Mae'r cronfeydd o fewn pob cyfrif wedi aros yn anghyffyrddadwy nes bod y plant yn cyrraedd deunaw oed.

Wrth i hyn ddod i ben, mae Cyllid a Thollau EM wedi dweud bod miloedd o gronfeydd aeddfed yn y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant wedi mynd heb eu hawlio hyd yma.

Mae hyn yn golygu y gallai pobl ifanc yn eu harddegau lleol o bosibl fod â chynilion gwerth £2,100 ar gyfartaledd yn aros amdanynt.

Amcangyfrifir bod 6.3 miliwn o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant wedi'u sefydlu tra oedd y cynllun ar waith.

Os nad oedd rhiant neu warcheidwad yn gallu agor un ar gyfer plentyn, gwnaeth CThEM hynny ar ran y plentyn, felly mae siawns dda iawn y bydd plant sy'n cael eu geni rhwng y dyddiadau hynny yn gallu elwa ohono nawr.

Y ffordd hawsaf o gael gwybod yw ymweld â gwefan GOV.UK a llenwi ffurflen ar-lein a fydd yn nodi ble mae'r arian yn cael ei ddal neu, os yw darparwr y gronfa ymddiriedolaeth yn hysbys eisoes, gwneud ymholiadau yn eich cangen leol agosaf.

Gyda llawer o bobl ifanc cymwys yn eu harddegau yn paratoi i adael yr ysgol neu ddechrau prifysgol, prentisiaeth neu eu swydd gyntaf, gallai'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant gynnig hwb ariannol y mae mawr ei angen iddynt, a gobeithio y bydd yr aelodau'n helpu i ledaenu'r newydd.

Aelod Cabinet – Adfywio

Ynghyd â chyd-aelodau yn y Cabinet, llwyddais i ymweld â Neuadd y Dref Maesteg yn ddiweddar i gael golwg ar sut mae'r gwaith yno'n dod yn ei flaen, ac rwy'n hapus i adrodd bod yr hyn a welsom wedi gwneud argraff fawr arnom.

Mae'r contractwyr Knox and Wells wrthi'n gorffen y gwaith o osod to 'llofft olau' newydd a fydd yn cysylltu'r adeilad presennol â'r estyniad newydd i greu mynedfa gyhoeddus newydd.

Bydd y rhan hon o'r datblygiad yn cynnwys cyntedd newydd, caffi cyhoeddus a chyfleuster mannau newid.

Bydd hefyd yn cynnwys gofod perfformio newydd, hyblyg a balconi mesanîn unigryw, ynghyd â bar a stiwdio, mae'n sicr o ddod yn fan pwysig i'r gymuned pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.

Yn ystod y gwaith o adfer yr adeiledd rhestredig Gradd II 141 oed, mae nifer o nodweddion hanesyddol wedi'u datgelu sydd wedi'u cadw ac yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Er bod gwneud y gwaith ychwanegol hwn wedi cael effaith ganlyniadol ar yr agoriad arfaethedig, rydym yn hyderus y bydd neuadd y dref ar ei newydd wedd yn barod i agor ei drysau eto'r haf nesaf.

Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ddiweddar, derbyniodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r cyngor yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau cymorth lleol i nodi ffyrdd y gallwn gydweithio i helpu cymunedau i fynd i'r afael â heriau'r argyfwng costau byw.

Mae'r cyngor yn cydlynu'r ymateb yn lleol ac yn parhau i ddatblygu dull gweithredu ochr yn ochr â'i bartneriaid allweddol.

Mae cyfarfodydd eisoes wedi eu cynnal yn ardaloedd Cwm Ogwr a Pencoed, ac mae mwy i fod i gael eu cynnal ym Maesteg a Mynyddcynffig.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn edrych yn benodol ar sut y gall lleoliadau a digwyddiadau presennol addasu i ddod yn lleoedd lle mae pobl yn teimlo croeso cynnes ac yn cael eu cefnogi yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn gyfle gwych i arweinwyr cymunedol ddod i wybod am ymdrechion a chynlluniau diweddaraf, ac i wneud awgrymiadau ynglŷn â'r ffordd orau i ni gydweithio i gefnogi trigolion lleol.

Maent hefyd wedi bod yn ddefnyddiol i osgoi dyblygu ymdrechion – er enghraifft, mewn ardaloedd lle mae banciau bwyd neu gynhesrwydd yn rhedeg eisoes – ac i sicrhau bod trigolion lleol yn manteisio'n llawn ar yr holl gymorth presennol, yn amrywio o gludiant cymunedol i grantiau gwisg ysgol.

Y bwriad yw cyfuno'r ddarpariaeth bresennol wrth ddatblygu gweithgareddau newydd. Er enghraifft, mae arian grant mannau cynnes wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ac unwaith y bydd cynnig ffurfiol wedi'i wneud, bydd y cyngor yn ei ddarparu i sefydliadau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth hon yn ein cymunedau lleol.

Mae Awen wedi cyflwyno eu prosiect Mannau Cynnes eu hunain, gan annog pobl i dreulio mwy o amser mewn llyfrgelloedd lleol trwy gynnig amgylchedd croesawgar, cyfforddus gyda diodydd cynnes a gweithgareddau newydd.

Mae cynlluniau hefyd ar waith i ddatblygu hyn ymhellach trwy ychwanegu sesiynau newydd ar gelf, crefft a cherddoriaeth i annog mwy o gyfranogiad.

Gan fod llawer o drigolion yn ei chael hi'n anodd cael cyngor ynghylch ynni, mae canolfannau gwaith lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal digwyddiadau lle gall pobl leol gael cyngor a chymorth.

Yn un o'r digwyddiadau hyn a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Waith Maesteg, roedd y cyfranogwyr yn gallu siarad ag asiantaethau allweddol fel Dŵr Cymru am eu hamgylchiadau a'u biliau ac roeddent yn gallu lleihau rhai o'u costau.

Gyda'r digwyddiad arfaethedig nesaf i'w gynnal yng Nghapel Dyffryn Caerau ddydd Mercher 30 Tachwedd, mae tudalen we costau byw newydd wedi'i sefydlu ar wefan y cyngor sydd wedi'i dylunio i gynnig cyngor a chymorth pellach ac i helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ar ddatblygiadau a digwyddiadau lleol.

Gall cael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl sy'n cael trafferth, a gobeithio y bydd aelodau'n gwneud defnydd o'r adnoddau hyn ac yn annog eu hetholwyr i fanteisio ar y digwyddiadau rhad ac am ddim hyn.

<u>Aelod Cabinet – Addysg</u>

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg yr ydym yn ei sefydlu ym Metws.

Fel y gwyddoch, mae hwn yn un o dri hwb o'r fath yr ydym yn eu sefydlu ar gyfer y fwrdeistref sirol, gyda thri arall yn yr arfaeth ym Mhorthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr a Melin Ifan Ddu fel rhan o fuddsoddiad cyffredinol o £2.8 miliwn mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Wedi'i adeiladu ar yr un safle â'r hen Glwb Bechgyn a Merched, mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ac rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt lle'r ydym yn paratoi i arddangos y cyfleusterau i ddarpar ddarparwyr ar 22 a 23 Tachwedd.

Wedi'i gynllunio i wasanaethu Cwm Garw ac ardal porth y cymoedd o'i amgylch, bydd hwb Betws yn darparu 16 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chwe lle i blant iau hyd at ddwy oed.

Wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu, bydd yn cynnig darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol a bydd yn gweithredu am hyd at 51 neu 52 wythnos o'r flwyddyn.

Rydym am i'r adeilad unllawr gynnig gofal dydd llawn o ddydd Llun i ddydd Gwener, a bydd yn cynnwys man chwarae newydd, ystafelloedd tawel, cyfleusterau chwarae meddal, canopi pob tywydd, cyfleusterau storio, swyddfeydd, a maes parcio ceir gyda lle i saith cerbyd.

Bydd yr hwb newydd yn gwasanaethu teuluoedd ar draws Cwm Garw sydd am i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hefyd yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg lleol wrth annog y Gymraeg i ffynnu a thyfu.

<u>Prif Weithredwr</u>

Mae gennyf gyhoeddiad byr iawn i'r aelodau.

Mae Comisiwn y DU ar Goffáu Covid yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol ar sut y dylid cofio'r pandemig byd-eang.

Mae rhai o'r cynigion hyd yn hyn wedi cynnwys pennu dyddiadau priodol ar gyfer diwrnod coffa cenedlaethol, awgrymiadau ar addysg i blant, a nodi cyflawniadau allweddol megis datblygiad y brechlynnau a chyfraniad gwirfoddolwyr.

Gofynnwyd inni fel awdurdod lleol am ein barn ar hyn, ac yr wyf yn llunio ymateb y gellir ei anfon yn ôl at CLILC.

Fe fyddan nhw wedyn yn llunio ymateb swyddogol i'r comisiwn sy'n cynrychioli barn llywodraeth leol Cymru.

Yr wyf yn siŵr y bydd gan yr aelodau eu barn eu hunain ar y ffordd orau o wneud hyn, ac efallai y byddwch am ymgynghori â'ch etholwyr hefyd.

Y dyddiad cau ar gyfer diwedd yr ymgynghoriad yw dydd Llun 5 Rhagfyr, felly os oes gennych unrhyw awgrymiadau, anfonwch nhw ataf cyn y dyddiad hwn, a byddaf yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys yn ein hymateb i CLILC.

61. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Yr wyf yn siŵr y bydd yr aelodau wedi nodi sylw diweddar yn y newyddion yn tynnu sylw at y datblygiadau diweddaraf yn yr ymdrechion i sefydlu cyrchfan antur gwerth £250 miliwn yng Nghwm Afan uchaf.

Gyda chaniatâd cynllunio amlinellol eisoes ar waith gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, gofynnwyd i'r awdurdod gymeradwyo cais materion a gadwyd yn ôl yn ymwneud â materion megis mynediad, cynllun, tirweddu, maint ac edrychiad.

Mae hyn i gyd yn digwydd y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth gwrs, ond gan ei bod yn agos at ein ffin, bydd hefyd yn cael effaith ganlyniadol o ran cyflogaeth, mynediad, traffig, buddsoddiad yn y dyfodol a mwy.

Yn ogystal â'r swyddi adeiladu a fydd yn cael eu creu, mae'r datblygwr Wildfox Resorts wedi amcangyfrif y bydd y gyrchfan yn cyflogi tua 1,000 o bobl ac yn cynnwys gwesty 50 gwely, sba a bwyty, 570 o gabanau, a chyfleusterau ar gyfer beicio a heicio.

Byddwn yn ceisio rhannu a manteisio ar y buddion y gall y prosiect uchelgeisiol hwn eu cynnig, a gyda disgwyliadau uchel y gallai gwaith ddechrau ar y safle y flwyddyn nesaf, byddwn yn cadw llygad barcud ar ei ddatblygiad.

Mewn newyddion eraill, mae cwpl lleol wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Maethu genedlaethol fawreddog am eu gwaith caled a'u hymroddiad i faethu plant a phobl ifanc ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyflwynwyd 'Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig Jon a Kathy Broad' i Pete a Becky Walsh yn seremoni flynyddol ddiweddar y Rhwydwaith Maethu, a gynhaliwyd yn Theatr Repertory Birmingham.

Roedd y cwpl wedi'u henwebu gan Bernadette Guy yn Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr ac fe'u disgrifiwyd fel 'gofalwyr maeth eithriadol sydd bob amser yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r plant yn eu gofal'.

Mae'r cwpl, sy'n gofalu am blentyn ag anghenion iechyd cymhleth ar hyn o bryd, yn aml yn gorfod mynychu apwyntiadau ysbyty a all fod gan milltir o'u cartref ac maent yn

adnabyddus am gefnogi gofalwyr eraill a chynnal agwedd gadarnhaol a gallu ei wneud. Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am ymuno â mi i longyfarch Pete a Becky, ac i ddiolch iddynt am eu hymroddiad ysbrydoledig a'u gwaith caled.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn darganfod mwy am ddod yn ofalwr maeth wneud hynny drwy fynd i wefan Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn olaf, yng nghyfarfod diwethaf y cyngor, efallai y byddwch yn cofio bod aelod wedi cwestiynu'r ffigur a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r ystadegau misol ynghylch y rhai sy'n cysgu ar y stryd sy'n cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Oherwydd natur fyrhoedlog y rhai sy'n cysgu ar y stryd, gall y cyfanswm hwn newid yn gyflym, weithiau o ddydd i ddydd, oherwydd gall fod gan bobl batrymau cyfnewidiol o symud rhwng llety a chysgu allan, neu hyd yn oed symud i mewn ac allan o ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol.

